# Bwrdd Diogelu Gwent

# Adroddiad Blynyddol 2024 –2025

**Tabl Cynnwys**


1. CYFLWYNIAD ... 3
2. RHESTR O AELODAU BWRDD DIOGELU GWENT ... 5
   - Aelodaeth ... 5-6
3. SUT MAE'R BWRDD YN ARFER EI DDYLETSWYDDAU STATUDOL AC YN CYFLAWNI EI FLAENORIAETHAU STRATEGOL ... 7
   - Strwythur Strategol Bwrdd Diogelu Gwent ... 9
4. SUT RYDYM WEDI GWEITHREDU EIN CYNLLUN BLYNYDDOL A CHYFLAWNI EIN CANLYNIADAU ... 10
   - Blaenoriaeth Strategol Ar y Cyd 1 – Amddiffyn yn well plant ac oedolion rhag esgeulustod, niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol. ... 10
   - Blaenoriaeth Strategol Ar y Cyd 2: Amddiffyn yn well plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamfanteisio ... 12
   - Blaenoriaeth Strategol Ar y Cyd 3 – Gwella a chynnal effeithiolrwydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ... 13
5. CYFLAWNIADAU'R BWRDD DIOGELU YN Y FLWYDDYN DDIWETHAF ... 14
6. FFRAMWAITH PERFFORMIAD DIOGELU AMLASIANTAETHOL CENEDLAETHOL – 5 CWESTIWN MAES ... 16
7. GYDA PHWY RYDYM WEDI CYDWEITHIO I DDIOGELU POBL GWENT ... 21
8. CYFRANIADAU AELODAU'R BWRDD AC ASIANTAETHAU ... 22
9. DEFNYDDIO ADNODDAU ... 24
10. THEMÂU DIOGELU A NODWYD ... 25
11. CYFRANOGIAD A CHYNNWYS DINASYDDION YNG NGWAITH Y BWRDD DIOGELU ... 27
12. GWYBODAETH, DYSGU A HYFFORDDIANT ... 29
    - Gwybodaeth ... 29
    - Dysgu ... 29
    - Hyfforddiant ... 30
13. GWEITHGAREDDAU ERAILL Y BWRDD ... 32

# 1. CYFLWYNIAD

Cyhoeddodd Bwrdd Diogelu Gwent gynllun strategol tair blynedd, yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2023/24 a 2025/26. Mae hyn yn ymgorffori gwaith Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GwASB) a Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWSCB). Mae'r adroddiad hwn yn darparu sefyllfa wedi'i diweddaru yn erbyn Blwyddyn Dau (2024/2025) y Cynllun Strategol hwn ac mae'n parhau i fod yn ffordd bwysig i Fwrdd Diogelu Gwent fod yn atebol i'r cyhoedd am adolygu ei effeithiolrwydd.

Paratowyd ein cynllun strategol yn erbyn cefndir arwyddocaol yr argyfwng costau byw cynyddol a'i heriau sylweddol i ddinasyddion, ymarferwyr, darparwyr gwasanaeth a chymunedau. Mae'r effaith a'r goblygiadau diogelu cysylltiedig yn cael eu gwireddu'n llawn o hyd o ran heriau tlodi, esgeulustod, iechyd meddwl a gwasanaeth ysgubol ar draws pob sector. Yn wyneb hyn, mae partneriaid Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i weithio ar y cyd ac yn ddiwyd i sicrhau bod gwasanaethau diogelu hanfodol yn darparu cymorth ac amddiffyniad i blant ac oedolion.

Wrth ei baratoi, cynigiwyd cyfle i'r holl asiantaethau sy'n aelodau o'r Bwrdd lywio'r adroddiad blynyddol hwn. Yn ogystal, cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan ddefnyddio gwybodaeth reolaidd gan gadeiryddion ac aelodau is-grwpiau, rhanddeiliaid ehangach, ac ymarferwyr.

Bydd cynnwys yr adroddiad yn cwmpasu pob un o'r pedair swyddogaeth ar ddeg mewn perthynas â gweithredu amcanion Bwrdd Diogelu fel y nodir yn Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru, Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015. Nodir diben yr adroddiad hwn yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chanllawiau cysylltiedig Llywodraeth Cymru - Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1:

*Mae diben cynlluniau ac adroddiadau blynyddol yn ddeublyg; bwriedir iddynt fod yn arf defnyddiol ar gyfer atebolrwydd a gwerthuso. Yn y cyd-destun hwn, mae tair elfen i atebolrwydd, sef:*

- *Atebolrwydd i'r cyhoedd;*
- *Atebolrwydd i'r asiantaethau statudol y mae partneriaid y Byrddau Diogelu'n dod ohonynt;*
- *Atebolrwydd i'r cyrff arolygu.*

Ar gyfer y cyfnod hwn, gwnaethom weithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth strategol drosfwaol ar y cyd, a ategir gan dair blaenoriaeth strategol ar y cyd, fel a ganlyn:

**Un Weledigaeth Drosfwaol ar y Cyd:**

Sicrhau bod plant ac oedolion, yng Ngwent, yn cael eu diogelu.

**Tair Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd:**

1. Amddiffyn yn well plant ac oedolion rhag esgeulustod, niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol.
2. Amddiffyn yn well plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamfanteisio.
3. Gwella a chynnal effeithiolrwydd y trefniadau diogelu rhanbarthol.

Yn y cyd-destun hwnnw, bydd yr adroddiad hwn yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent gyfan dros y flwyddyn ddiwethaf, gan roi crynodeb o

weithgarwch y grwpiau, y ffrydiau gwaith a'r dysgu sy'n cefnogi fframwaith diogelu strategol y rhanbarth. Byddwn hefyd yn dangos ble mae pryderon ehangach ynghylch diogelu wedi cael eu nodi i ganolbwyntio mwy arnynt dros y cyfnod i ddod, i sicrhau lles a diogelwch dinasyddion.



**Gareth Jenkins**

**Pennaeth Gwasanaethau Plant – C.B.S Caerffili**
**Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru**



**Jane Rodgers**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – C.B.S Sir Fynwy**
**Cadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan**

# 2. RHESTR O AELODAU BWRDD DIOGELU GWENT

- **Aelodaeth**

Mae aelodaeth pob Bwrdd fel a ganlyn:

**BWRDD DIOGELU PLANT DE-DDWYRAIN CYMRU**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd / Pennaeth Gwasanaethau Plant** | C.B.S Caerffili |
| **Pediatregydd sy'n Feddyg a Enwyd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (B.I.P.A.B.) |
| **Pennaeth Diogelu** | B.I.P.A.B. |
| **Ymgynghorydd Arweiniol** | B.I.P.A.B. (Tîm Iechyd Cyhoeddus) |
| **Cyfarwyddwr Cynorthwyol** | Barnardo's |
| **Rheolwr Gwasanaeth** | C.B.S. Blaenau Gwent |
| **Pennaeth Gwasanaethau Plant** | C.B.S. Blaenau Gwent |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg** | C.B.S. Blaenau Gwent |
| **Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol** | Cartrefi Cymunedol Bron Afon |
| **Rheolwr Gwasanaeth** | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Caerffili a Blaenau Gwent yn cynrychioli Timau Troseddau Ieuenctid Gwent |
| **Prif Swyddog Addysg / cynrychiolydd** | C.B.S. Caerffili |
| **Uwch Gyfreithiwr, Gwasanaethau Cyfreithiol** | C.B.S. Caerffili |
| **Rheolwr Gwasanaeth Diogelu** | C.B.S. Caerffili |
| **Prif Swyddog Gweithredol** | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent |
| **Pennaeth Gweithrediadau** | Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent |
| **Pennaeth yr Uned Diogelu'r Cyhoedd** | Heddlu Gwent |
| **Pennaeth yr Uned Datblygiad Proffesiynol** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| **Pennaeth Gwasanaethau Plant** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Rheolwr Gwasanaeth Diogelu** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Rheolwr Tai a Chymunedau** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Prif Swyddog Addysg** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Aelod o'r BDAC** | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| **Gwasanaethau Plant, Rheolwr Gwasanaeth** | Cyngor Dinas Casnewydd |
| **Prif Swyddog Addysg** | Cyngor Dinas Casnewydd |
| **Pennaeth Gwasanaethau Plant** | Cyngor Dinas Casnewydd |
| **Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu** | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| **Gweithiwr Proffesiynol Diogelu** | Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Rheolwr Busnes** | Uned Fusnes Diogelu Rhanbarthol |
| **Rheolwr Grŵp** | C.B.S. Torfaen |
| **Pennaeth Gwasanaethau Plant** | C.B.S. Torfaen |
| **Pennaeth Adnoddau a Chynllunio, Addysg** | C.B.S. Torfaen |
| **Uwch Swyddog Gweithredol** | Cynghrair Gwirfoddol Torfaen |
| **Cynghorydd Rhanbarthol** | Tîm Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| **Pennaeth Diogelu** | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

**BWRDD DIOGELU OEDOLION GWENT GYFAN**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd / Prif Swyddog, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Is-gadeirydd / Pennaeth Diogelu** | B.I.P.A.B. |
| **Ymgynghorydd Arweiniol** | B.I.P.A.B. (Tîm Iechyd Cyhoeddus) |
| **Rheolwr Gwasanaeth** | C.B.S. Blaenau Gwent |
| **Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** | C.B.S. Blaenau Gwent |
| **Rheolwr Gwasanaeth Diogelu** | C.B.S. Caerffili |
| **Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** | C.B.S. Caerffili |
| **Pennaeth Heneiddio'n Egnïol** | Derwen Cymru (rhan o Grŵp POBL) |
| **Prif Swyddog Gweithredol** | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent |
| **Pennaeth Gweithrediadau** | Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent |
| **Pennaeth yr Uned Diogelu'r Cyhoedd** | Heddlu Gwent |
| **Arweinydd Diogelu** | Carchar Ei Fawrhydi Brynbuga |
| **Pennaeth yr Uned Datblygiad Proffesiynol** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| **Rheolwr Gwasanaeth Diogelu** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Pennaeth Tai** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Aelod o'r BDAC** | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| **Rheolwr Gwasanaeth** | Cyngor Dinas Casnewydd |
| **Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** | Cyngor Dinas Casnewydd |
| **Dirprwy Gomisiynydd Troseddu** | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| **Gweithiwr Proffesiynol Diogelu** | Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Rheolwr Busnes** | Uned Fusnes Diogelu Rhanbarthol |
| **Swyddog Diogelu** | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| **Rheolwr Grŵp** | C.B.S. Torfaen |
| **Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** | C.B.S. Torfaen |
| **Cynghorydd Rhanbarthol** | Tîm Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| **Pennaeth Diogelu** | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

# 3. SUT MAE'R BWRDD YN ARFER EI DDYLETSWYDDAU STATUDOL AC YN CYFLAWNI EI FLAENORIAETHAU STRATEGOL

Wrth i ni adolygu ein cynnydd o fewn ail flwyddyn ein cynllun strategol tair blynedd, bydd yr adroddiad hwn yn ystyried blaenoriaethau strategol ar y cyd y Bwrdd a'r meysydd ffocws cysylltiedig, a restrir isod yn Adran 4. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw gyflawniadau a bylchau o gymharu â meysydd ffocws blaenoriaeth y Bwrdd, yn ogystal â'i bedair swyddogaeth statudol ar ddeg a chyfrifoldebau craidd[1] Byrddau Diogelu a restrir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg'. Bydd Adran 4 yn amlinellu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud ym mhob maes ffocws blaenoriaeth strategol a pha ganlyniadau a gyflawnwyd neu y bwriedir iddynt barhau i'r cyfnod nesaf. Er mwyn cyflwyno'r diagram o'r Bwrdd isod ac Adran 4 ei hun, rydym eisiau defnyddio'r adran hon i amlinellu sut mae'r Bwrdd yn gwneud y mwyaf o'i strwythur i arfer ei ddyletswyddau statudol a chyflawni ei flaenoriaethau strategol.


Gan gyfeirio at y diagram isod, mae'r strwythur yn galluogi'r Bwrdd Diogelu i ddatganoli dyletswyddau statudol penodol i is-grwpiau dynodedig o'r Bwrdd. Er enghraifft, mae'r Grŵp Adolygu Achosion, sy'n is-grŵp uwch, yn helpu'r Bwrdd trwy gyflawni'r swyddogaeth statudol i ystyried yr holl atgyfeiriadau ar gyfer Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (SUSRs). Mae'r grŵp hwn yn sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer yr holl adolygiadau a bod cynlluniau gweithredu strategol a gweithredol yn cael eu cydlynu a'u rheoli'n effeithiol. Enghraifft arall yw'r Grŵp Cynllunio Busnes, sef is-grŵp uwch arall sy'n cynorthwyo'r Bwrdd trwy oruchwylio cynnydd yn erbyn cynlluniau gwaith yr is-grŵp perthnasol, ledled y rhanbarth. Mae'r grŵp hwn yn allweddol i hwyluso llif cyfathrebu rhydd rhwng grwpiau lleol, is-grwpiau a'r Bwrdd. Mae ein pedwar is-grŵp yn goruchwylio swyddogaethau statudol penodol y Bwrdd. Mae enghreifftiau'n cynnwys yr is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau a'r is-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu, ac mae gan bob un o'r pedwar is-grŵp gylch gwaith a chynlluniau gwaith clir, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cynllun strategol tair blynedd. Mae ein Rhwydweithiau Diogelu Lleol yn parhau i fod yn allweddol hefyd i alluogi'r Bwrdd i ddeall a chyrraedd ardaloedd lleol. Mae'r holl is-grwpiau'n rhoi adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd trwy'r Grŵp Cynllunio Busnes. Mae hyn yn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol craidd a blaenoriaethau strategol y Bwrdd yn cael eu goruchwylio ac yn derbyn sylw gan grŵp amlasiantaethol penodol o bartneriaid diogelu allweddol.

Mae ein Cynllun Strategol a'n Cynllun Gweithredu yn sicrhau bod cyfarwyddyd clir ar gyfer pob un o is-grwpiau'r Bwrdd o ran pwy fydd yn cyflawni beth yn erbyn pob un o'r meysydd ffocws blaenoriaeth strategol. Yn aml, bydd nifer o weithgareddau'n cael eu cynnal gan amryw is-grwpiau yn erbyn pob maes ffocws blaenoriaeth, ac weithiau, pan fydd blaenoriaethau diogelu newydd neu fwy yn dod i'r amlwg, ymgorfforir y rhain yn y rhaglen waith gyffredinol. Mae cryn dipyn o weithgarwch yn digwydd rhwng pob cyfarfod Bwrdd ac is-grŵp, lle mae nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen amlasiantaethol yn ymdrechu i gyflawni ei ganlyniadau datganedig. Mae hyn yn parhau i fod yn llwyddiannus oherwydd gall grwpiau ehangach a mwy arbenigol o ymarferwyr gyfrannu at waith y Bwrdd. Hefyd, mae hyn yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn erbyn amcan

[1] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-i-cyflwyniad-a-throsolwg.pdf

allweddol cyfranogiad cynyddol trwy annog defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan yn y broses ymgynghori, lle bo'n briodol.

- **Strwythur Strategol Bwrdd Diogelu Gwent**



# 4. SUT RYDYM WEDI GWEITHREDU EIN CYNLLUN BLYNYDDOL A CHYFLAWNI EIN CANLYNIADAU

Mae tair blaenoriaeth strategol ar y cyd sy'n pennu cyfeiriad y gwaith a wneir gan Fwrdd Diogelu Gwent yn ystod ei gynllun tair blynedd. O dan y tair blaenoriaeth strategol ar y cyd hyn, ceir cyfanswm o ddeg maes ffocws blaenoriaeth y cymerir camau yn eu herbyn i gyflawni'r amcanion a'r canlyniadau. Rhestrir isod y blaenoriaethau a'r meysydd ffocws ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2023 a 2026, ynghyd â'r cyflawniadau neu feysydd a nodwyd ar gyfer gwaith parhaus. I gael rhagor o wybodaeth am y blaenoriaethau a'r meysydd ffocws, dilynwch y ddolen hon i'n Cynllun Strategol Cynllun Strategol DIOGELU GWENT 23-26 Blwyddyn 3 TERFYNOL

- **Blaenoriaeth Strategol Ar y Cyd 1 – Amddiffyn yn well plant ac oedolion rhag esgeulustod, niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol.**

**Maes Ffocws Diogelu 1 – Cam-drin Plant yn Rhywiol**
Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol, mae'r Bwrdd wedi cynnal rhaglen waith sy'n cael ei goruchwylio gan grŵp gorchwyl strategol ac yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a gwaith archwilio rhanbarthol. Gan ddefnyddio'r adroddiadau data chwarterol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol i'r is-grŵp Sicrhau Ansawdd, mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod nifer y plant sydd wedi'u cofrestru yn y categori cam-drin rhywiol wedi aros yn gyson yn un o'r categorïau cofrestru isaf eleni. Rydym yn gwybod o weithdai cynyddu ymwybyddiaeth gyda'r Ganolfan Arbenigedd ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol bod hyn yn wir ledled Cymru, i raddau helaeth, a bod mynychder cam-drin plant yn rhywiol yn parhau'n uchel, er gwaethaf y posibilrwydd nad yw'n cael ei adrodd neu ei adnabod digon. Felly, bydd y gwaith hwn yn parhau'n ffocws blaenoriaeth pwysig, o ystyried ymrwymiad y rhanbarth i wella ymateb ein gwasanaethau i gam-drin plant yn rhywiol. Eleni, rydym wedi dechrau gweithredu argymhellion o'n harchwiliad rhanbarthol, amlasiantaethol o gam-drin plant yn rhywiol, sy'n cynnwys datblygu canllawiau rhanbarthol am gam-drin plant yn rhywiol a chryfhau trefniadau cofrestru categori sengl. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys diweddaru'r categori dogfennau cofrestru sy'n cael eu dosbarthu i fynychwyr, sesiynau briffio Swyddog Adolygu Annibynnol ar bwysigrwydd pwysleisio fel rhan o wneud penderfyniadau lle ystyrir bod cam-drin plant yn rhywiol yn risg, yna dyma ddylai'r prif gategori fod bob amser, heb ystyried a yw risgiau eraill yn gyffredin hefyd.

Fel y dangosir gan y tabl crynodeb o hyfforddiant yn Adran 12, eleni, mae'r Bwrdd wedi comisiynu cyflwyno hyfforddiant arbenigol i gynorthwyo ymarferwyr i gymhwyso templed Arwyddion a Dangosyddion y Ganolfan Arbenigedd ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol. Yn y cyfnod i ddod, rydym yn bwriadu cynnal archwiliad o'i ddefnydd gan ymarferwyr. Rydym yn gwybod o waith ymchwil fod plentyn yn annhebygol o adnabod ei fod yn cael ei gam-drin a'i fod hefyd yn annhebygol o ddatgelu'n uniongyrchol i weithwyr proffesiynol. Diben yr hyfforddiant hwn yw cynorthwyo ymarferwyr amlasiantaethol i wella'u dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol o fewn amgylchedd y teulu, adnabod arwyddion a dangosyddion yn well, ac ymateb yn effeithiol i amddiffyn plant. Mae'r camau a gymerwyd i gyflawni ein canlyniadau o ran gwella ymwybyddiaeth o'r niwed hwn ac amlygu meysydd ar gyfer datblygu ymarfer a systemau ymhellach yn helpu i wella'r broses o adnabod, atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yng Ngwent.

**Maes Ffocws Diogelu 2 - Esgeulustod**
Mae dangosfwrdd data yn parhau i alluogi'r Bwrdd i ddeall nifer yr atgyfeiriadau esgeulustod a'r categorïau cofrestru yn ôl Awdurdod Lleol. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i ddeall mynychder a pharhad achosion esgeulustod yng Ngwent. Y llynedd, canolbwyntiom ar ddatblygu pecyn cymorth esgeulustod a mynediad at adnodd hyfforddiant esgeulustod, y mae'r ddau ohonynt yn cynorthwyo ymarferwyr i ddeall y mathau o esgeulustod a'u

canlyniadau, a meddu ar y sgiliau i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o brofi esgeulustod neu sydd eisoes yn ei brofi.

Eleni, datblygodd ein Bwrdd ganllawiau amlasiantaethol i gynorthwyo ymarferwyr i ymateb yn effeithiol i gwympiadau a chefnogi'r defnydd o farn broffesiynol wrth bennu p'un a oes angen Dyletswydd i Hysbysu ynghylch Diogelu Oedolion. Gwelsom fod modd atal cwympiadau a thoriadau ymhlith pobl hŷn, ond gallant ddigwydd o ganlyniad i esgeulustod pan fethir darparu gofal, cymorth neu sylw angenrheidiol. Gallai hyn fod wedi atal yr unigolyn rhag cwympo neu leihau ei ddifrifoldeb. Felly, trwy wella ymwybyddiaeth amlasiantaethol am sut i leihau tebygolrwydd cwympiadau.

Lansiwyd ein cwrs hyfforddiant Esgeulustod Cymhleth yn adnodd dysgu cyfunol, amlasiantaethol, ac eleni, fe wnaethom gomisiynu darparwyr hyfforddiant i gyflwyno'r sesiwn hon. Yn ychwanegol, fe wnaethom gomisiynu sesiynau arbenigol yn gysylltiedig â Hunanesgeulustod, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Chelcio i barhau i ddysgu gan arbenigwyr yn y maes hwn a sicrhau bod ein hadnoddau yn gyfredol o ran ymchwil. Mae ein dangosfyrddau data yn dweud wrthym fod esgeulustod yn parhau i fod yn un o'r mathau o gam-drin yr adroddir amdano fwyaf, ac felly'n un o'r rhai amlycaf i blant ac oedolion, fel ei gilydd. O gyfuno esgeulustod ag effaith barhaus yr argyfwng costau byw, mae'n debygol o gael effaith sylweddol ar deuluoedd, ac felly byddwn yn sicrhau bod esgeulustod yn parhau i dderbyn ymateb fel pryder ynghylch diogelu ar gyfer ein rhanbarth.

**Maes Ffocws Diogelu 3 – Iechyd Meddwl**

Mae'r themâu dysgu o Grwpiau Ymateb Uniongyrchol ac adolygiadau ymarfer plant dros y blynyddoedd diwethaf wedi awgrymu bod hunanladdiad / hunan-niwed ymhlith plant neu bobl ifanc yn parhau i beri pryder. Eleni, cynhaliom Grŵp Ymateb Uniongyrchol i ymateb i farwolaeth drasig oedolyn ifanc yn gadael gofal, oherwydd yr effaith sylweddol ar y gymuned a achoswyd gan y farwolaeth. Mae ein hymateb amlasiantaethol wedi ein sbarduno i adolygu'r terfyn oedran presennol ar gyfer Grwpiau Ymateb Uniongyrchol, gan gymhwyso dull diogelu mwy trosiannol, o bosibl, fel y bod y rheiny sydd wedi eu heffeithio yn elwa ar broses well yn y cyfnod trawmatig hwn. Mae ein cydweithio â'n partneriaid Grŵp Llywio Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed yn parhau i roi'r mewnbwn angenrheidiol gan arbenigwyr y sector i ni. Yn y cyfnod i ddod, rydym yn bwriadu cynnal archwiliad o effeithiolrwydd y protocol diweddaraf.

Eleni, fel yr amlinellir yn Adran 12, rydym wedi comisiynu hyfforddiant i gynorthwyo ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, ar draws amrywiaeth o grwpiau targed. Mae'r rhain yn cynnwys Hunanesgeulustod, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Chelcio, y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, Cam-drin Domestig, Rheolaeth drwy Orfodaeth ac Oedolion sydd mewn Perygl. Nod yr ystod hon o hyfforddiant yw cynorthwyo ymarferwyr wrth weithio gyda phlant ac oedolion sy'n profi problemau iechyd meddwl. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i ni fod gwaith ar y trywydd iawn i gyflawni'r canlyniad bwriadedig, sef gwella dealltwriaeth o hunanladdiad a hunan-niwed ar draws gweithlu amlasiantaethol, ac ymateb iddo, er mwyn diogelu dinasyddion yn well.

**Maes Ffocws Diogelu 4 – Cam-drin domestig teulu cyfan**

Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi parhau i gydweithio â Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i wneud y gorau o'n dull amlasiantaethol a darganfod cyfleoedd i weithio gyda'n gilydd i nodi, atal ac ymateb i bryderon diogelu yn ymwneud â cham-drin domestig. Eleni, dangoswyd hyn mewn llawer o ffyrdd. Yr enghraifft gyntaf yw trwy ein cydweithio wrth weithredu Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (SUSR) a ddaeth ag adolygiadau diogelu at ei gilydd o dan un fframwaith. Wrth i ni symud ymlaen â'n Hadolygiad Diogelu Unedig Sengl cyntaf eleni, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, rydym yn archwilio themâu o'n hadolygiadau domestig cysylltiedig, gan gynnwys unrhyw batrymau yn deillio o'r rheiny a roesom ar waith fel rhan o'r cynlluniau peilot.

Yn ychwanegol, dangoswyd hyn trwy ein hymdrechion ar y cyd i gefnogi Diwrnod Ymwybyddiaeth Fyd-eang o Gam-drin Pobl Hŷn a thrwy hwyluso sesiwn fforwm ymarferwyr yn ystod Wythnos Ddiogelu Genedlaethol i amlygu dysgu o Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

Fel yr amlinellir yn Adran 12, fe wnaethom gomisiynu darparwr arbenigol i ddatblygu a chyflenwi Hyfforddiant y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Cam-drin Domestig, Rheolaeth drwy Orfodaeth ac Oedolion sydd mewn Perygl. Galluogodd hyn inni i wella ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r cysylltiadau rhwng diogelu oedolion a cham-drin domestig. Eleni, ar y cyd â'n cydweithwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, cynhaliom sesiwn ddatblygu i ddod ag aelodau ein Bwrdd Cynllunio Ardal, Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Bwrdd Diogelu Gwent at ei gilydd i ystyried themâu trawsbynciol a rhyngddibynnol a oedd yn amlwg i bob un o'r tri Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys cam-drin domestig, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. O ganlyniad i hyn, gwnaed nifer o argymhellion a oedd wedi eu bwriadu i gryfhau cydweithio a lleihau dyblygu.

- **Blaenoriaeth Strategol Ar y Cyd 2: Amddiffyn yn well plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamfanteisio**

**Maes Ffocws Diogelu 2.1 – Camfanteisio**
Mae partneriaid Gwent yn defnyddio'r Pecyn Cymorth Mesur Camfanteisio ar Blant fel fframwaith rhanbarthol i gynorthwyo ymarferwyr i ddeall ac ymateb i gamfanteisio. Mae ein partneriaid wedi parhau i fuddsoddi yn y trefniadau hwb diogelu amlasiantaethol, integredig ledled y rhanbarth, ac elwa arnynt. Mae hyn yn hyrwyddo ymgynghori cynnar ag asiantaethau perthnasol, rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol, yn ogystal â gwneud penderfyniadau 'byw', amserol, ynglŷn â phawb a allai fod mewn perygl o niwed, gan gynnwys camfanteisio posibl. Mae pob un o'r pum Awdurdod Lleol yng Ngwent yn parhau i gymryd rhan mewn cynllun peilot Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol gan y Swyddfa Gartref i brofi a hyrwyddo gwneud penderfyniadau lleol am blant sy'n dioddef caethwasiaeth fodern mewn ffordd sy'n ategu strwythurau diogelu presennol.

Fel y dangosir yn Adran 12, eleni, rydym wedi comisiynu a darparu nifer o sesiynau hyfforddi arbenigol yn ymwneud â chamfanteisio ar blant ac oedolion. Mae'r cyfarfodydd Camfanteisio ar Blant Amlasiantaethol (MACE) rhanbarthol yn parhau i oruchwylio achosion camfanteisio ar blant ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Diogelu yn amlinellu'r niferoedd, y themâu a'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi'r rhanbarth i rannu gwybodaeth am achosion cysylltiedig, lleoliadau pryder ac achosion wedi'u huwchgyfeirio. Un enghraifft o thema sy'n dod i'r amlwg yw diffyg cysondeb o ran cymhwyso dull diogelu wrth bontio i gynorthwyo plant sy'n troi'n 18 oed, yn gadael y garfan ac nad ydynt yn debygol o fodloni'r trothwy ar gyfer gwasanaethau diogelu oedolion. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud mewn un Awdurdod Lleol yn profi dull diogelu wrth bontio yn y cyfnod nesaf, y mae rhanbarth Gwent yn bwriadu ei hyrwyddo.

Mae'r camau hyn wedi ein galluogi i gyflawni yn erbyn y dangosyddion canlyniad o fewn y maes blaenoriaeth hwn, trwy alluogi gweithlu mwy gwybodus ac wedi'i arfogi'n well, sydd â mynediad at fforymau ac adnoddau cadarn a ddyluniwyd i helpu i amddiffyn plant ac oedolion rhag camfanteisio yng Ngwent.

**Maes Ffocws Diogelu 2 – Diogelu wrth Bontio**
Mae diogelu wrth bontio yn amlinellu pwysigrwydd darparu cymorth ac amddiffyniad ar gyfer plant sy'n agosáu at 18 oed i sicrhau bod gwasanaethau critigol a help yn parhau ar gael iddynt wrth iddynt ddod yn oedolion ifanc. Mae hyn yn hynod berthnasol ar gyfer plant y camfanteisiwyd arnynt sy'n aml yn gallu cael eu gwasanaethu'n wael gan ymagwedd ddeuaidd at wasanaethau plant neu oedolion.

Eleni, mae'r Bwrdd wedi hyrwyddo'r gwaith arloesol yn un Awdurdod Lleol yng Ngwent, sydd, ar y cyd â Heddlu Gwent a phartneriaid eraill, yn paratoi i brofi model diogelu wrth bontio. Bydd hyn yn cynnwys ymestyn y trothwy oedran ar gyfer cyfarfodydd Camfanteisio ar Blant Amlasiantaethol i 25 mlynedd er mwyn galluogi gwasanaethau i barhau i gynorthwyo pobl ifanc am gyfnod hirach, i wyro oddi wrth niwed a lleihau'r cyfleoedd i ddod yn rhai sy'n camfanteisio.  Bydd hefyd yn cynnwys adolygiad systemau o'r daith trwy wasanaethau o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth, gyda bwriad i ddatblygu model gwasanaeth pobl ifanc.  Yn rhan o sioe deithiol ymchwil, noddodd Bwrdd Diogelu Gwent yr uchelgais hon o fewn yr ardal leol hon ac mae'n parhau i lywodraethu ar gyfer rhannu'r dysgu'n ehangach ledled y rhanbarth.

Mae dysgu'n parhau i ddod i'r amlwg o'n Grwpiau Ymateb Uniongyrchol i amlygu mater diogelu wrth bontio a'r heriau cysylltiedig i blant a phobl ifanc bregus y mae arnynt angen cymorth estynedig gan wasanaethau oedolion arnynt. Eleni, cynhaliom Grŵp Ymateb Uniongyrchol i ymateb i'r effaith sylweddol ar y gymuned a achoswyd gan farwolaeth drasig oedolyn ifanc yn gadael gofal. Mae ein hymateb amlasiantaethol wedi ein sbarduno i adolygu'r terfyn oedran presennol ar gyfer Grwpiau Ymateb Uniongyrchol, gan gymhwyso dull diogelu mwy trosiannol, o bosibl.

- **Blaenoriaeth Strategol Ar y Cyd 3 – Gwella a chynnal effeithiolrwydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol**

**Maes Ffocws Diogelu 1 – Cyfranogiad / Llais y defnyddiwr gwasanaeth**
Mae ein His-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu wedi gweithio'n galed i nodi cyfleoedd i wella ymglymiad dinasyddion yng ngwaith y Bwrdd er mwyn i leisiau defnyddwyr gwasanaeth allu helpu cynllunio a ffurfio arfer a phroses diogelu yng Ngwent.  Eleni, rhoddodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) gyflwyniad i ymarferwyr ar bwnc Llais y Plentyn a Phrofiadau Bywyd.  Hefyd, bu'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn helpu fel 'ffrind beirniadol' wrth ymgynghori ar daflenni Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer plant ac ar gyfer rhieni. Hefyd, datblygom ddogfen canllawiau amlasiantaethol, oedd yn argymhelliad o ddysgu adolygiadau rhanbarthol a chenedlaethol, i hyrwyddo pwysigrwydd deall profiad bywyd y plentyn.

Mae ein cyrsiau hyfforddiant diogelu amlasiantaethol i gyd yn pwysleisio arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac eirioli, sy'n hyrwyddo ymgysylltiad a llais y plentyn neu'r oedolyn trwy gydol y broses ddiogelu. Eleni, cwblhaodd y Bwrdd gynllun peilot byr gyda phartner o'r trydydd sector i holi defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn cymryd rhan yn y broses amddiffyn plant am eu profiadau. Dysgom am bwysigrwydd perthnasoedd y plentyn a'r teulu gydag ymarferwr ymddiriedus ac am yr angen am gyfathrebu, cymorth ac ymglymiad gwell rhieni yn y broses amddiffyn plant. Buom hefyd yn dysgu am yr effaith iechyd meddwl a lles y gall y broses ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cynllun peilot hwn bellach wedi cael ei ymestyn o 3 i 12 mis, a bydd yn llywio datblygu adnoddau i gynorthwyo rhieni trwy brosesau amddiffyn plant yn y dyfodol.

**Maes Ffocws Diogelu 2 – Gwydnwch y gweithlu: capasiti, cymhwysedd a hyder**
Yn sgil lansio'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol, sbardunwyd adolygiad o gynnig hyfforddiant ein bwrdd diogelu rhanbarthol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau a'r fframwaith newydd. Yn ogystal â sicrhau bod cyrsiau hyfforddi ategol ein Bwrdd yn cyd-fynd â'r fframwaith cenedlaethol, rydym wedi cefnogi ein partneriaid eleni i sicrhau bod eu gweithlu yn ymgymryd â'r hyfforddiant angenrheidiol, fel sy'n ofynnol o fewn y fframwaith. Yn ychwanegol, gwnaethom ddatblygu a chyhoeddi Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol ar gyfer Recriwtio Diogel a Chyflogaeth Ddiogel gyda mewnbwn arbenigol gan gydweithwyr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, i gynorthwyo ein partneriaid i wneud eu harferion a'u prosesau recriwtio a chyflogaeth yn fwy diogel.

Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'i bartneriaid i ddatblygu fframwaith perfformiad yn gysylltiedig â diogelu, gan gynnwys capasiti'r gweithlu, a fydd yn galluogi lens ranbarthol well, ac yn gwasanaethu fel mecanwaith cymharu cenedlaethol. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn y cyfnod i ddod.

**Maes Ffocws Diogelu 3 – Tlodi**
Eleni, rydym wedi bod yn gweithredu'r argymhellion a ddaeth i'r amlwg o'n harchwiliad Cam-drin Ariannol rhanbarthol. Adolygom 30 o achosion ar draws 5 Awdurdod Lleol. Cafodd y mwyafrif ohonynt adolygiad cadarnhaol, ac roedd cynrychiolaeth dda o lais y dioddefwr, drwyddi draw. Dywedodd un thema ddysgu a ddaeth i'r amlwg wrthym fod nifer o achosion cam-drin ariannol yn cynnwys aelodau teulu, sy'n gallu creu haen o gymhlethdod i reoli achosion, lle nad yw dioddefwyr efallai bob amser yn teimlo'n gyfforddus neu'n barod i ofyn am help gan yr awdurdodau. Mae partneriaid, fel D.W.P. ac Age Cymru, wedi dweud y bu cynnydd mewn achosion o gam-drin ariannol a allai fod wedi cael eu dylanwadu gan yr hinsawdd economaidd bresennol. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n datblygu Pecyn Cymorth Cam-drin Ariannol i gynorthwyo ymarferwyr wrth weithio gyda theuluoedd, ac eleni, bu ein cydweithwyr yn Heddlu Gwent yn codi ymwybyddiaeth am seiberdroseddu a risg sgamiau ariannol yn ein Rhwydweithiau Diogelu Lleol.

Mae gwaith ymchwil a wnaed gan sefydliadau fel Joseph Rowntree Foundation yn dangos mai tlodi yw un o brif sbardunau digartrefedd. Gall diffyg tai fforddiadwy, diweithdra a budd-daliadau annigonol wthio pobl i ddigartrefedd. Yng Ngwent, rydym wrthi'n cynnal Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol ar hyn o bryd o ran nifer y marwolaethau rhanbarthol o fewn ein cymuned ddigartref, ac mae themâu cynnar yn dangos bod cysylltiadau tebyg â thlodi.

**Maes Ffocws Diogelu 4 – Canlyniadau Perfformiad**
Mae gan y Bwrdd ystod o brosesau sicrwydd, rhai arferol a rhai ymatebol, sy'n galluogi partneriaid i ddangos eu trefniadau diogelu effeithiol ac i'r Bwrdd strategol amlygu neu fonitro unrhyw feysydd i'w datblygu. Mae rhai enghreifftiau o'n prosesau sicrwydd arferol yn cynnwys casglu data Awdurdodau Lleol yn chwarterol, archwiliadau amlasiantaethol a monitro PRUDiCS (Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod). Mae rhai enghreifftiau o brosesau sicrwydd ymatebol yn cynnwys Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (SUSRs) / fforymau proffesiynol amlasiantaethol, paneli cwynion a Grwpiau Ymateb Uniongyrchol. Mae'r prosesau hyn yn galluogi'r Bwrdd i ddeall natur a graddau materion diogelu yng Ngwent a nodi lle mae ymarfer neu brosesau diogelu'n gweithio'n dda neu lle mae angen gwella.

Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn cael adroddiadau data gan y pum Awdurdod Lleol, fel mater o drefn, y mae partneriaid yn craffu arnynt er mwyn deall unrhyw wahaniaethau neu dueddiadau chwarterol. Er enghraifft, mae'r data'n cynnwys niferoedd a chategorïau plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant a niferoedd a phrif gategorïau'r atgyfeiriadau ar gyfer oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r Bwrdd yn defnyddio'r adroddiadau hyn i ofyn am gyd-destun, ac archwilio pellach, gan Awdurdodau Lleol, lle mae tueddiadau annisgwyl wedi dod i'r amlwg. Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a byrddau diogelu rhanbarthol eraill i lywio datblygiad Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaethol Cenedlaethol (NMSPF). Mae hyn wedi'i fwriadu i sefydlu meincnod cenedlaethol o fesurau i fyrddau diogelu rhanbarthol allu dangos sicrwydd neu ganolbwyntio eu hymdrechion o ran gwaith datblygu pellach, os oes angen.

At ei gilydd, mae'r gweithgareddau hyn wedi ein helpu i weithio tuag at ein canlyniadau bwriadedig o fewn y cynllun i fodloni'r Bwrdd bod gweithgareddau diogelu a gynhelir gan ei asiantaethau partner yn effeithiol ac yn helpu i gefnogi a diogelu dinasyddion. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud o ran creu fframwaith sicrhau

ansawdd a pherfformiad amlasiantaethol ledled y rhanbarth.  Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid i gyflawni hyn.

# 5. CYFLAWNIADAU’R BWRDD DIOGELU YN Y FLWYDDYN DDIWETHAF

Dyma rai enghreifftiau o gyflawniadau Bwrdd Diogelu Gwent ar gyfer 2024/2025 sy’n amlygu ein straeon ‘newyddion da’ ac yn parhau i ddangos ehangder ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf:

1. Mae partneriaid Bwrdd Diogelu Gwent yn dweud wrthym fod ein Cyfnewidfa Wybodaeth wythnosol yn cynnig ffordd effeithiol o godi ymwybyddiaeth yn rheolaidd, lledaenu cyfleoedd dysgu a hyfforddi a rhannu arfer gorau.

2. Datblygodd ein his-grŵp Sicrhau Ansawdd offeryn sicrwydd, fel ymateb rhanbarthol i Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant AGC ac adroddiadau thematig CPR Risg, Ymateb, Adolygu BDAC. Rydym yn bwriadu defnyddio’r offeryn hwn eto i fonitro’r ymatebion rhanbarthol i’r Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion (APRs) Cymru 2025 sydd ar fin dod.

3. Ym mis Hydref, cefnogodd Bwrdd Diogelu Gwent weithredu **Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (SUSRs)** ledled Cymru. Mantais hyn fydd proses sy’n llai beichus i deuluoedd a dysgu mwy amserol i ymarferwyr.

4. Yn ystod 2024/2025, cynhaliom **adolygiadau ymarfer** oedolion a phlant yn unol ag un o’n swyddogaethau statudol craidd. Fe wnaethom gwblhau a lledaenu’r dysgu o blith nifer o adolygiadau a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol, a amlinellir yn fanylach yn Adran 12 yr adroddiad hwn. Mae gennym adolygiadau parhaus ac adolygiadau a gomisiynwyd yn ddiweddar ac Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl a fydd yn parhau i’r flwyddyn ariannol nesaf.

5.Yn rhan o **Wythnos Ddiogelu Genedlaethol**, buom yn cydweithio â Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Cymdeithas y Plant, Gofal Cymdeithasol Cymru, yr NSPCC a phartneriaid eraill i ddarparu digwyddiadau amlasiantaethol rhithwir ac wyneb yn wyneb, o dan y thema ‘Ymarfer yn Canolbwyntio ar Ganlyniad.’ Cododd hyn ymwybyddiaeth am chwilfrydedd proffesiynol, ymarfer yn seiliedig ar gryfderau, gweithio gyda risg, diogelu pobl ifanc drawsryweddol ac anneuaidd rhag camfanteisio, a dysgu o Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Cyrhaeddom tua 450 o ymarferwyr,a chafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a myfyrdodau ymarfer. Cyflwynom sesiwn Cymorth Cymheiriaid Adolygu Achosion a groesawyd gan gadeiryddion ac adolygwyr hyfforddedig, fel mecanwaith cymorth rhanbarthol defnyddiol yr ydym yn bwriadu parhau i’w gynnig

6. Rydym yn parhau i gyflawni busnes craidd ar gyfer y Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â **rôl gydlynus, weithredol mewn ymgynghori, mabwysiadu neu weithredu unrhyw fentrau neu weithdrefnau newydd a ddatblygwyd**. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys ein mewnbwn rhanbarthol cryf i ddatblygu'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddi, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol newydd. Rydym yn parhau i addasu cynnig hyfforddiant ein Bwrdd i gydymffurfio â'r safonau hyn, i sicrhau bod ymarferwyr o fewn ein rhanbarth yn cael mynediad at hyfforddiant diogelu amlasiantaethol, o ansawdd uchel.

7. Mae ein cyfarfodydd **Rhwydwaith Diogelu Lleol** a digwyddiadau fforwm ymarferwyr bob chwe mis yn parhau i fod yn boblogaidd. Mae'r digwyddiadau hyn yn hanfodol i waith y Bwrdd Diogelu strategol gan eu bod yn sicrhau bod cysylltiad lleol yn bodoli gyda'n hymarferwyr a'n darparwyr gwasanaeth. Rydym yn ymfalchïo mewn gwrando ar ein partneriaid Rhwydwaith Diogelu Lleol i sicrhau mai'r meysydd pwnc yw'r rhai sydd fwyaf perthnasol i'r ardal leol. Eleni, roedd ein dull hybrid o sesiynau wyneb yn wyneb, yn ogystal â sesiynau ar-lein, yn llwyddiant gwirioneddol.

8. Rydym wedi cynnal, ac yn parhau i ddatblygu, grŵp cyflwyno hyfyw ar gyfer **cynnig hyfforddiant 'mewnol'** eleni, ac rydym yn parhau i gomisiynu **hyfforddiant arbenigol.** Mae hyn wedi ein galluogi i gynnig hyfforddiant ar lawer o wahanol destunau diogelu, fel yr amlinellir yn Adran 12.

9. Mae ein Grwpiau Ymateb Uniongyrchol yn ymgynnull pan gafwyd digwyddiad critigol yn ymwneud â phlentyn a bod angen ymateb amlasiantaethol i reoli effaith ar gymuned. Eleni, datblygom sesiynau briffio 7 munud i wella ymwybyddiaeth am beth a ddisgwylir gan y rheiny sy'n mynychu, a phryd y dylid galw Grŵp Ymateb Uniongyrchol ynghyd. Yn ychwanegol, rydym wrthi'n adolygu'r terfyn oedran ar gyfer Grwpiau Ymateb Uniongyrchol ar hyn o bryd i ystyried cymhwyso dull diogelu mwy trosiannol.

10. Adolygiad **amlasiantaethol o'r prosesau rhanbarthol yn ymwneud â phlant sy'n cael eu chwilio gan yr heddlu**. Galluogodd hyn i Fwrdd Diogelu Gwent weithredu dysgu, i sicrhau bod y prosesau'n cynnwys atgyfeiriadau priodol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn yn parhau i sicrhau bod monitro effeithiol ar waith.

# 6. FFRAMWAITH PERFFORMIAD DIOGELU AMLASIANTAETHOL CENEDLAETHOL – 5 CWESTIWN MAES

Eleni, mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'i bartneriaid, i fireinio fframwaith perfformiad diogelu amlasiantaethol cenedlaethol, sy'n bwriadu rhoi darlun cydlynus o effeithiolrwydd diogelu yng Nghymru. Ar ôl cwblhau cynllun peilot cenedlaethol, cyfarfu partneriaid Bwrdd Diogelu Gwent ag ymchwilwyr Prifysgol Metropolitan Manceinion i gynnal gweithdy ar gyfer arweinwyr perfformiad i bennu ein camau nesaf. Roedd ein partneriaid yn glir y dylem adrodd ar unrhyw fertigau ystyrlon sydd eisoes wedi'u casglu, lle bynnag y bo modd, i leihau goblygiadau adnoddau. Rydym yn croesawu'r cyfle i fireinio ac ailbrofi fframwaith perfformiad diogelu cyfoethog ac amlasiantaethol i sicrhau ymatebion cytbwys gan bob un o bartneriaid y bwrdd diogelu. Fodd bynnag, mae Bwrdd Diogelu Gwent yn cydnabod yr heriau sydd i ddod i lawer o bartneriaid gofal cymdeithasol y flwyddyn nesaf, gan fod y system bresennol i gofnodi data wedi cau i lawr ac mae defnyddwyr wedi symud draw i dechnoleg newydd o fewn graddfeydd amser llym.

O fewn y fframwaith, mae 5 maes sy'n cynnwys nifer o gwestiynau ar gyfer byrddau diogelu rhanbarthol. Aethpwyd i'r afael â rhai o'r cwestiynau hyn trwy gydol prif gorff yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, er hwylustod, mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi amlinellu isod sut gall prosesau, gweithgareddau neu feysydd gwaith presennol geisio ateb y cwestiynau hyn:

**1. Proses Ddiogelu**

- Sut caiff y Bwrdd ei sicrhau bod trefniadau'n effeithiol o ran **nodi** ac **ymateb** i bryderon ynghylch diogelu?
- Beth yw **canlyniadau** prosesau ac ymyriadau diogelu rhanbarthol?

Mae Bwrdd Diogelu Gwent a'i is-grwpiau yn ystyried gwybodaeth am ddiogelu o ystod o ffynonellau fel mater o drefn i roi sicrwydd ar drefniadau diogelu yn y rhanbarth. Mae ein his-grŵp Sicrhau Ansawdd yn derbyn adroddiadau chwarterol gan bartneriaid Awdurdodau Lleol ar brosesau ac ymatebion diogelu, ledled Gwent. Wedyn, creffir ar dueddiadau, anghysondebau a chyd-destun cyn eu rhannu gyda'r Bwrdd. Rhestrir rhai enghreifftiau isod:

- Ar gyfer oedolion, nododd un Awdurdod Lleol gynnydd yn nifer y dyletswyddau i adrodd yr oedd wedi'u derbyn am gam-drin corfforol o fewn un lleoliad gofal, yn deillio o achosion rhwng cleifion. Sbardunodd hyn waith uniongyrchol rhwng yr Awdurdod Lleol a'r cartref gofal i drafod rheoli'r pryderon hyn yn effeithiol, yn ogystal â nodi bwlch rhanbarthol o ran canllawiau ar gyfer cam-drin rhwng cleifion / rhwng preswylwyr. Mae hyn bellach wedi cael ei amlygu ar lefel genedlaethol.

- Ar gyfer plant, cam-drin emosiynol yw'r categori cam-drin uchaf ledled y rhanbarth o hyd. Cam-drin plant yn rhywiol yw'r isaf o hyd. Er ei bod yn ymddangos bod ymarferwyr yn adnabod arwyddion cam-drin rhywiol, heb dystiolaeth gan yr heddlu neu o faes iechyd, neu ddatgeliad, mae'n ymddangos mai anaml y caiff plant eu cofrestru ar gyfer cam-drin rhywiol. Mae grŵp gorchwyl dynodedig ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol yn parhau i weithredu argymhellion o'i archwiliad rhanbarthol o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys datblygu canllawiau rhanbarthol i ymarferwyr ynghylch cam-drin plant yn rhywiol a darparu hyfforddiant ynghylch Arwyddion a Dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol, i ddatblygu

ymarfer yn y maes hwn. Hefyd, rydym yn dechrau gweithio i gryfhau trefniadau cofrestru un categori. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys diweddaru'r categori dogfennau cofrestru sy'n cael eu rhannu i fynychwyr, sesiynau briffio Swyddog Adolygu Annibynnol ar bwysigrwydd pwysleisio yn rhan o wneud penderfyniadau lle ystyrir bod cam-drin plant yn rhywiol yn risg, yna dyma ddylai'r prif gategori fod bob amser, ni waeth a yw risgiau eraill yn gyffredin, hefyd.

- Dywedodd un Awdurdod Lleol fod cynnydd yn nifer y Dyletswyddau i Adrodd yn ymwneud â digartrefedd, 'cogio' a chamfanteisio. Ar ôl trafod hyn o fewn ein Grŵp Adolygu Achosion, ac archwilio achosion tebyg ledled y rhanbarth, rydym bellach yn cynnal Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol i nodi cyfleoedd dysgu ac arfer da.

- Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae niferoedd y Dyletswyddau i Adrodd ar gyfer plant mewn rhai Awdurdodau Lleol wedi dangos gwahaniaethau sylweddol sy'n awgrymu amrywiadau tymhorol, yn dibynnu ar amseroedd tymhorau ysgol. Mae partneriaid yn ymwybodol bod plant yn cael llai o gysylltiad â gweithwyr proffesiynol pan fydd ysgolion ar gau. Mae hyn wedi sbarduno trafodaethau gan bartneriaid am godi ymwybyddiaeth gydag asiantaethau eraill, er enghraifft darparwyr clybiau chwaraeon, gwersylloedd haf, ac ati, am bwysigrwydd diogelu.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae'r Bwrdd yn monitro data diogelu a'i bartneriaid, yn gwneud cymariaethau dros gyfnod, yn myfyrio ar brosesau diogelu yn y rhanbarth, ac yn galluogi ymateb amlasiantaethol i fylchau neu themâu sy'n dod i'r amlwg.

**2. Gweithgarwch a Data Amlasiantaethol**

- Sut mae'r Bwrdd yn sicrhau ei hun bod **protocolau presennol rhwng asiantaethau yn gweithio'n effeithiol**, pan nodir bod unigolion mewn perygl o niwed?
- Pa **ddata** sy'n cael ei gasglu ynghylch hyn, sut caiff ei rannu a pha dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn y cyfnod?

Un enghraifft o weithgarwch a data amlasiantaethol a rennir â'r Bwrdd, fel mater o drefn, yw'r diweddariadau chwarterol Camfanteisio ar Blant Amlasiantaethol (MACE) rhanbarthol. Mae'r adroddiadau Camfanteisio ar Blant Amlasiantaethol yn galluogi'r Bwrdd i nodi neu olrhain tueddiadau yn niferoedd y plant sy'n cael eu cefnogi, yn ogystal ag unrhyw gyd-destun pwysig, themâu sy'n dod i'r amlwg a chynlluniau gwella. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i fonitro niferoedd y plant sydd mewn perygl uchel o gamfanteisio rhywiol neu gamfanteisio troseddol ac yn cael eu cefnogi yn rhan o'r garfan hon.  Cefnogir unrhyw newid mewn tueddiadau gan gyd-destun sy'n cael ei ddarparu gan arweinwyr yr heddlu, ynghyd â disgrifiad llawn o ba gamau sy'n cael eu cymryd gan bob partner i ymateb i hyn. Wedyn, creffir ar dueddiadau, anghysondebau a chyd-destun cyn eu rhannu â'r Bwrdd. Rhestrir rhai enghreifftiau isod:

- Rhoddwyd sicrwydd yn yr adroddiadau chwarterol Camfanteisio ar Blant Amlasiantaethol a'r diweddariadau ychwanegol fod y cyfarfodydd wythnosol rhanbarthol am Blant Coll yn llwyddiannus, a bod nifer y plant coll yn gostwng o ganlyniad i'r ymateb amlasiantaethol hwn.

- Mae'r adroddiadau Camfanteisio ar Blant Amlasiantaethol yn amlygu diffyg cysondeb wrth gymhwyso dull diogelu wrth bontio i gefnogi plant sy'n troi'n 18 oed, yn gadael y garfan ac nad ydynt yn debygol o

fodloni’r trothwy ar gyfer gwasanaethau diogelu oedolion.  Bydd y gwaith sy’n cael ei wneud mewn un Awdurdod Lleol yn profi dull diogelu wrth bontio yn y cyfnod i ddod, y mae rhanbarth Gwent yn bwriadu dysgu oddi wrtho, a’i gefnogi.

Mae’r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae’r Bwrdd yn sicrhau ei hun bod trefniadau diogelu amlasiantaethol presennol yn gweithio’n effeithiol neu fod angen eu gwella. Mae’r enghreifftiau ychwanegol isod yn dangos sut mae’r Bwrdd yn ymateb i bryderon nad yw protocolau presennol rhwng asiantaethau yn gweithio mor effeithiol ag y gallent:

- Codwyd pryderon gan bartneriaid iechyd a phartneriaid Darparwyr Cartrefi Gofal nad yw ein **canllawiau Trothwyon Oedolion Diogelu rhanbarthol** yn dra hysbys nac yn cael eu defnyddio’n dda. Rydym yn bwriadu adolygu’r canllawiau presennol a thargedu grwpiau ymarferwyr a fforymau darparwyr cartrefi gofal penodol i wella ymwybyddiaeth ledled Gwent.

- Mae canfyddiadau cynnar sy’n dod i’r amlwg o adolygiadau ymarfer presennol yn awgrymu bod gwahaniaethau proffesiynol rhwng asiantaethau yn thema, ond nad oedd ein **canllawiau rhanbarthol ar Ddatrys Gwahaniaethau Proffesiynol** yn cael eu defnyddio. Yn y cyfnod i ddod, rydym yn bwriadu ystyried y rheswm am hynny a nodi ffyrdd i wella ymwybyddiaeth a defnyddio’r canllawiau hyn sy’n rhoi cymorth i ymarferwyr mewn datrys gwahaniaethau proffesiynol yn effeithiol.

- Trwy ystyried ein setiau data Awdurdodau Lleol, nodom mai Darparwyr Gofal ac Iechyd oedd yr atgyfeiriwr mwyaf o ran Dyletswyddau i Adrodd am oedolion. Cyd-destun hyn oedd y gofal a ddarperir o fewn cartrefi gofal, cam-drin rhwng preswylwyr a chwympiadau. O ganlyniad, rydym wedi datblygu a chyhoeddi **canllawiau Cwympiadau rhanbarthol**.  Rydym wedi bod mewn cysylltiad â byrddau diogelu rhanbarthol eraill yng Nghymru a gyda Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru i amlygu’r angen am ganllawiau cenedlaethol o ran cam-drin rhwng cleifion / rhwng preswylwyr.

**3. Llecynnau Poeth Thematig**

- Pa **ffynonellau niwed thematig allweddol** sy’n gofyn am ymateb diogelu yn lleol y ceir tystiolaeth ohonynt yn nata’r Bwrdd?
- Pa **gamau** a nodwyd i ymateb i’r dystiolaeth thematig hon?

Ar draws meysydd gwaith y Bwrdd ac is-grwpiau, rydym yn nodi llecynnau poeth thematig. Enghreifftiau o rai o’r mecanweithiau yr ydym yn eu defnyddio i nodi themâu yw adolygiadau ymarferol, prosesau cwyno, archwiliadau, Grwpiau Ymateb Uniongyrchol, data perfformiad, yn ogystal â gwrando ar, ac ymateb, i’r hyn sy’n cael ei rannu ar sail ranbarthol a chenedlaethol.  Yn ychwanegol, gall hyn fod ar ffurf trafodaethau anecdotaidd rhwng partneriaid o fewn is-grwpiau sy’n ein sbarduno i archwilio p’un a yw hon yn thema ac yn cael ei rhannu gan bobl eraill, trwy archwilio rhanbarthol neu uwchgyfeirio i’r Bwrdd. Rhestrir rhai enghreifftiau isod:

- **Adolygiadau ymarfer** – Aeth ein Grŵp Adolygu Achosion at ein cydweithwyr Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymateb i nifer o atgyfeiriadau’n ymwneud â rhwymedd neu gywasgiad difrifol i blant. O ganlyniad i’r adolygiad cyflym hwn, daethpwyd i’r casgliad

nad oedd yn thema genedlaethol, fel y cyfryw, a roddodd rywfaint o sicrwydd. Fodd bynnag, fe wnaethom ymrwymo i weithio ymhellach i godi ymwybyddiaeth am fynychder a pheryglon rhwymedd, pan gaiff ei gyfuno â ffactorau risg eraill.

- **Grwpiau Ymateb Uniongyrchol** – Mae ein Grwpiau Ymateb Uniongyrchol yn ymgynnull pan fu digwyddiad critigol yn ymwneud â phlentyn ac mae angen ymateb amlasiantaethol i reoli effaith ar gymuned. Eleni, cynhaliom Grŵp Ymateb Uniongyrchol i ymateb i farwolaeth drasig oedolyn ifanc a oedd yn gadael gofal, oherwydd yr effaith sylweddol ar y gymuned a achoswyd gan y farwolaeth. Fe wnaeth ein hymateb amlasiantaethol ein sbarduno i adolygu'r terfyn oedran presennol ar gyfer Grwpiau Ymateb Uniongyrchol, gan gymhwyso dull diogelu mwy trosiannol, o bosibl, fel bod y rheiny sy'n cael eu heffeithio yn elwa ar broses estynedig yn y cyfnod trawmatig hwn. Mae Adran 4 a 10 yn amlinellu gwaith pellach o ran y thema diogelu wrth bontio.

- **Themâu cenedlaethol** – Mae ein perthynas â chyrff cenedlaethol yn rhoi cyfle i Fwrdd Diogelu Gwent ystyried llecynnau poeth thematig cenedlaethol. Adlewyrchwyd hyn wrth i'r Bwrdd ddatblygu a gweithredu offeryn sicrwydd, sef ymateb rhanbarthol i Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant AGC ac adroddiadau thematig CPR Risg, Ymateb, Adolygu BDAC. Rydym yn bwriadu defnyddio'r offeryn hwn eto i fonitro'r ymatebion rhanbarthol i'r Adolygiad Thematig sydd ar ddod o Adolygiadau Ymarfer Oedolion (APRs) Cymru 2025.

- **Archwiliadau** – Mae ein harchwiliadau arferol yn darparu ffynhonnell o lecynnau poeth thematig rhanbarthol allweddol. Er enghraifft, amlygodd ein harchwiliad cam-drin ariannol fynychder y math hwn o niwed ymhlith ein cymuned oedolion sydd mewn perygl. Amlygodd yr archwiliad fod cam-drin ariannol yn cael ei gyflawni amlaf gan unigolyn sy'n gweithredu mewn capasiti ymddiriedus, fel aelod o deulu neu ffrindiau a chymdogion. Eleni, mae gwaith wedi cael ei wneud i weithredu'r argymhellion a gododd o'r archwiliad hwn, i ddatblygu pecyn cymorth cam-drin ariannol i gynorthwyo ymarferwyr i weithio gyda'r math hwn o gam-drin.

**4. Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth**

- Beth yw **amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth** yn gysylltiedig â gweithgarwch diogelu uniongyrchol?
- Beth mae'r **metrigau** sy'n cofnodi'r adborth hwn yn ei ddweud wrth y Bwrdd?
- Sut mae'r Bwrdd yn cynllunio i ymateb i'r dystiolaeth hon a thros ba raddfa amser?

Mae Llais y Defnyddiwr Gwasanaeth yn un o'r deg maes ffocws blaenoriaeth strategol ar gyfer Bwrdd Diogelu Gwent sy'n parhau yn fwy yn y flwyddyn i ddod, fel yr amlinellir yn Adran 10. Isod, rydym yn amlinellu rhai enghreifftiau o ble rydym wedi casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth ar ddiogelu eleni, neu rydym wedi hyrwyddo llais y defnyddiwr gwasanaeth:

- Anfonwyd adroddiad cynnydd i AGC ar y camau a gymerwyd yng Ngwent i ymateb i adroddiad yr Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant a gyhoeddwyd y llynedd. Datblygodd Bwrdd Diogelu Gwent ddogfen sicrwydd a amlinellodd yr holl gysylltiadau thematig er mwyn gallu cydlynu gwaith cynlluniedig yn well. Un o'n hymatebion i hyn fu datblygu a chyhoeddi dogfen canllawiau amlasiantaethol i hyrwyddo pwysigrwydd deall profiad bywyd y plentyn.

- Eleni, cwblhaodd y Bwrdd gynllun peilot byr gyda nifer o sefydliadau'r trydydd sector i holi defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn cymryd rhan yn y Broses Amddiffyn Plant am eu profiadau. Dysgom am bwysigrwydd perthynas y plentyn a'r teulu gydag ymarferwr ymddiriedus ac am yr angen am gyfathrebu, cymorth ac ymglymiad gwell rhieni yn y broses amddiffyn plant. Dysgom hefyd am yr effaith y gall y broses ei chael o ran iechyd meddwl a lles ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cynllun peilot hwn bellach wedi cael ei ymestyn o dri mis i ddeuddeg mis a bydd yn llywio datblygu adnoddau i gynorthwyo rhieni trwy brosesau amddiffyn plant yn y dyfodol.

- Mae cyrsiau diogelu amlasiantaethol y Bwrdd i gyd yn hyrwyddo ac yn pwysleisio arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ymgysylltiad a llais y defnyddiwr gwasanaeth trwy gydol y broses ddiogelu, ac yn cyd-fynd â'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol yn gysylltiedig â'r pwnc hwn.

- Cynhelir digwyddiadau ymarferwyr Rhwydwaith Diogelu Lleol ddwywaith y flwyddyn ac maent yn gysylltiad pwysig rhwng y Bwrdd Diogelu a'r bobl hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth.  Eleni, rhoddodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) gyflwyniad i ymarferwyr yng Ngwent ar Lais y Plentyn a Phrofiadau Bywyd.  Hefyd, helpodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol fel 'ffrind beirniadol' wrth ymgynghori ar ein taflenni Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer plant ac ar gyfer rhieni.

**5. Gwybodaeth am y Gweithlu**

- Beth sy'n hysbys am **broffil** y **gweithlu diogelu**?
- Sut mae **recriwtio a chadw** yn effeithio ar gyflawni dyletswyddau diogelu?
- I ba raddau y caiff **hyfforddiant amlasiantaethol** ei ddarparu i'r gweithlu diogelu, a'i gwblhau ganddo (yn unol â'r proffil)?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i sicrhau'r Bwrdd bod asiantaethau yn deall ac yn ymateb i **les a chymorth** y gweithlu diogelu?

Mae gwydnwch y gweithlu yn parhau i fod yn faes ffocws blaenoriaeth allweddol ar gyfer Bwrdd Diogelu Gwent, yn benodol o ran capasiti, cymhwysedd a hyder.  Er nad yw partneriaid yn adrodd i'r Bwrdd am wybodaeth am broffil y gweithlu ar hyn o bryd, rydym yn ymwybodol o'n trafodaethau Bwrdd ac is-grwpiau fod recriwtio a chadw yn parhau i effeithio ar bob partner.  Yn rhan o'r trefniadau adrodd arferol, mae'n ofynnol i is-grwpiau'r Bwrdd nodi unrhyw faterion diogelu neu wersi a ddysgwyd yn rhan o'u diweddariad i'n Grŵp Cynllun Busnes uwch. Er enghraifft:

- **Diweddariadau partner** – Eleni, mae sawl partner Bwrdd wedi dweud o fewn y Bwrdd ac is-grwpiau fod eu sefydliadau yn ailstrwythuro, sydd wedi achosi ychydig o darfu dros dro ar rai o alluoedd y tîm. Mae'r didwylledd hwn wedi galluogi partneriaid y Bwrdd i ragweld a cheisio lliniaru'r heriau sy'n wynebu partneriaid yn ystod y broses hon.

- **Data perfformiad** – Rydym yn nodi bod cryn dipyn o drafod yn digwydd yn ein Grŵp Sicrhau Ansawdd ynghylch gwybodaeth am y gweithlu, a sut gallai hyn effeithio ar drefniadau diogelu ar gyfer ein partneriaid.  Mae hyn yn sicrhau bod y Bwrdd yn ymwybodol o heriau'r gweithlu a allai fod yn effeithio ar

ddyletswyddau diogelu. Yn ein his-grŵp Sicrhau Ansawdd, pan gynhelir trafodaethau am y gwahaniaethau rhwng niferoedd chwarterol y Dyletswyddau i Adrodd sy'n symud ymlaen i ymchwiliadau 47 ac ymlaen i Gynadleddau Amddiffyn Plant, mae'n fuddiol deall y cyd-destun o ran newidiadau i'r gweithlu. Gellir priodoli gwahaniaethau i ddigwyddiadau hyfforddi targedig, neu yn wir, i broffiliau staffio, fel llai o weithlu cymwys neu weithlu sydd newydd gymhwyso, sy'n effeithio ar lefelau capasiti neu hyder.

- **Honiadau diogelu am ymarferwyr** – Yn anecdotaidd, dywedodd ein harweinwyr diogelu fod cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau lle gwnaed honiadau diogelu am ymarferwyr (Adran 5, Cynllun Gofodol Cymru). Sbardunodd hyn yr is-grŵp Sicrhau Ansawdd i ddechrau coladu data rhanbarthol Adran 5 er mwyn gallu rhoi ystyriaeth fwy arferol i'r goblygiadau hyn i'r gweithlu yn y cyfnod i ddod.

- **Safonau a Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol** – Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn falch o gynnig hyfforddiant diogelu amlasiantaethol i'w bartneriaid yng Ngwent, y mae manylion amdano wedi eu cynnwys yn Adran 12. Yn ogystal â sicrhau bod cynnig hyfforddiant cyflenwol ein Bwrdd yn cyfateb i'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol, rydym wedi bod yn parhau i gefnogi ein partneriaid i sicrhau bod eu gweithlu yn ymgymryd â'r hyfforddiant angenrheidiol fel sy'n ofynnol o fewn y fframwaith.

# 7. GYDA PHWY RYDYM WEDI CYDWEITHIO I DDIOGELU POBL YNG NGWENT

Rydym wedi parhau i gydweithio ag amrywiaeth o asiantaethau, partneriaethau a fforymau eraill i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Heddlu Gwent;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Gwasanaeth Tân ac Achub;
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST)
- Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Gwent;
- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent;
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Gwent.

O'n Pum Ardal Awdurdod Lleol – Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen

- Addysg;
- Gwasanaethau Plant;
- Gwasanaethau Oedolion;
- Darparwyr Tai Statudol;
- Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid.

Mae gennym gysylltiadau gwaith cryf â phartneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol eraill:

- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC);
- Llywodraeth Cymru;
- Y pum bwrdd rhanbarthol arall ar gyfer diogelu plant ac oedolion, yng Nghymru.

Mae Bwrdd Diogelu Gwent a'r is-grwpiau yn parhau i dderbyn nifer o gyflwyniadau a sesiynau briffio ar-lein gan amrywiaeth eang o bartneriaid. Mae hyn yn dangos ein hymdrechion cyson i gydweithio ag eraill ac i barhau i gael gwybodaeth ac ymgysylltu ag agendâu diogelu cyfochrog eraill ar draws y rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gofal Cywir, Person Cywir – Heddlu Gwent
- Ailosod Cyfnod Prawf - HMPPS
- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol – cynrychiolydd Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru
- Diogelu dan warchodaeth HMPPS – CEF Brynbuga / Llywodraethwr Carchar Prescoed
- Ymchwil / Adolygu Diogelu, Addysg a Hil – cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Addysg
- Dyletswydd Trais Difrifol – Heddlu Gwent / Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Gwent

# 8. CYFRANIADAU AELODAU'R BWRDD AC ASIANTAETHAU

Mae ein partneriaid Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i ddangos eu hymrwymiad a'u hymroddiad i waith y Bwrdd trwy eu cyfranogiad cyson a gweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac is-grwpiau. Mae hyn wedi galluogi'r Byrddau i barhau i ymateb i'r heriau sy'n wynebu eu hasiantaethau partner. Trwy gynnal perthnasoedd cryf â phartneriaethau strategol eraill, mae'r Bwrdd yn sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn ystyriaeth flaenoriaethol wrth weithio trwy heriau arwyddocaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau yn ein rhanbarth.

Rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau gan holl asiantaethau cyfansoddol y Bwrdd a llawer o bartneriaid eraill i gefnogi gwaith y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf sydd, yn ei dro, yn cael ei lywio gan ei flaenoriaethau strategol a'i gynllun gweithredu. Yn ogystal, rydym yn parhau i ddibynnu ar asiantaethau i ddarparu unigolion i weithio gydag Uned Fusnes Diogelu Gwent ac i ddarparu Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion ar gyfer ein grwpiau.

Daw'r trefniadau Cadeirio ac Is-gadeirio ar gyfer ein grwpiau trwy gydol 2024/2025 o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru**<br>Gwasanaethau Plant Caerffili | **Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan**<br>Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Fynwy<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **GRŴP ADOLYGU ACHOSION**<br>Heddlu Gwent<br>Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi | **GRŴP CYNLLUNIO BUSNES**<br>Tîm Diogelu Caerffili<br>Tîm Diogelu Casnewydd |
| **PROTOCOL A GWEITHDREFNAU**<br>Cyngor Sir Fynwy<br>Gwasanaethau Plant Torfaen | **GRŴP SICRHAU ANSAWDD AR Y CYD**<br>Tîm Diogelu Blaenau Gwent<br>Gwasanaethau Oedolion Caerffili<br>Gwasanaethau Plant Caerffili |
| **YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU**<br>Gwasanaethau Plant Sir Fynwy | **DYSGU A DATBLYGU**<br>Cyngor Dinas Casnewydd |

Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i gynnig cyfres o hyfforddiant diogelu i'w bartneriaid. Mae ein Grŵp Cyflawni Hyfforddiant yn defnyddio ein hadnoddau partner i ddatblygu, adolygu a hwyluso rhaglen hyfforddi generig ein Byrddau ar y cyd. Rydym yn parhau i ddibynnu ar yr adnoddau hyn i 'wneud mwy gyda llai' o ran faint o hyfforddiant y gallwn ei ddarparu i ymarferwyr. Mae partneriaid wedi buddsoddi cryn dipyn o amser i ailddatblygu ein rhaglen hyfforddi er mwyn sicrhau y gall ddarparu profiad dysgu cyfunol, cael ei chyflwyno'n rhithwir pan fo angen a chydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn ein galluogi i barhau i gynnig ystod o hyfforddiant diogelu, a ddarperir gan bartneriaid amlasiantaethol, i ymarferwyr traws-sector sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sydd mewn perygl a hefyd i gomisiynu hyfforddiant pwrpasol lle nodir anghenion blaenoriaethol. Mae holl asiantaethau partner y Bwrdd wedi ymrwymo i'r adnodd hwn, ac rydym yn ystyried bod hynny'n gyfraniad pwysig at fusnes y Bwrdd. Eleni, mae partneriaid wedi ymdrechu'n sylweddol i sicrhau bod cynnig hyfforddiant y Bwrdd yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn parhau i fynd rhagddo.

Rydym yn parhau i ddibynnu ar yr adnoddau a ddarperir gan asiantaethau a phartneriaid i gadeirio a darparu adolygwyr ar gyfer Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl. Rydym wedi bod yn ffodus i ddefnyddio staff o Heddlu Gwent, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, Tîm Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, pob un o'r pum Tîm Diogelu Awdurdod Lleol, a'r Gwasanaethau i Blant ac Oedolion yn y prosesau adolygu.

Rydym yn parhau i ddibynnu'n helaeth ar gymorth a chefnogaeth Rheolwyr y Gwasanaeth Diogelu o bob un o'r pum ardal Awdurdod Lleol ledled Gwent gan eu bod i gyd yn Cadeirio eu cyfarfodydd Rhwydwaith Diogelu Lleol (RhDLl) eu hunain ac yn hwyluso eu digwyddiadau Fforwm Ymarferwyr RhDLl chwe-misol. Mae'r digwyddiadau RhDLl hefyd yn parhau i fod yn rhan annatod o'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol yma yng Ngwent. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i'r Bwrdd arddangos cyfleoedd dysgu a chodi ymwybyddiaeth, a gofyn am farn ymarferwyr ar adnoddau'r Bwrdd gan ddefnyddio arolygon ymarferwyr.

Ledled Gwent, mae'r ffordd y mae'r Bwrdd a'i is-grwpiau yn gweithredu yn parhau i fod yn enghraifft wirioneddol o waith amlasiantaethol ar ei orau. Heb ymrwymiad a chyfraniad aelodau'r Bwrdd, asiantaethau a phartneriaid, ni fyddai gwaith y Bwrdd ar ei lefel bresennol yn bosibl.

# 9. DEFNYDDIO ADNODDAU

Ariennir y Bwrdd gan gyfraniadau gan asiantaethau partner statudol sydd wedi cytuno ar y fformiwla ariannu fel y'i nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 - Cyflwyniad a Throsolwg', sef y canllawiau sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae’r cyllid gan asiantaethau partner y Bwrdd yn darparu seilwaith rhanbarthol o staff sy’n gweithio’n agos gyda Chadeiryddion Bwrdd, partneriaid y Bwrdd Diogelu a chyrff eraill a gynrychiolir gan y Bwrdd, y mae eu diben wedi’i amlinellu o fewn y canllawiau uchod, i:

- sbarduno’r busnes o ddydd i ddydd o ran swyddogaethau craidd y Bwrdd;
- darparu cymorth gweinyddol a sefydliadol ar gyfer gwaith is-grwpiau Bwrdd;
- darparu cymorth gweinyddol a sefydliadol ar gyfer gweithgareddau sy’n gysylltiedig â sicrhau ansawdd, hyfforddiant a datblygiad staff a’r trefniadau dysgu ac adolygu, gan gynnwys Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl;
- darparu cymorth ar gyfer adolygu perfformiad y Bwrdd ac ar gyfer ei gynllunio ariannol tymor canolig.

Y sefydliad lletyol ar gyfer yr Uned Fusnes yw’r Partner Arweiniol hefyd.

Mae'r Bwrdd hefyd yn darparu rhaglen hyfforddi ranbarthol amlasiantaethol helaeth. Mae hyn yn cynnwys ystod o gyrsiau diogelu generig, sy'n galluogi mynediad am ddim i ymarferwyr a gwirfoddolwyr ledled y rhanbarth. Fe'u cynlluniwyd i ategu ac ychwanegu gwerth at yr hyfforddiant a ddarperir gan dimau datblygu'r gweithlu yn y rhanbarth.

Mae’r costau penodol ar gyfer y cymorth hwn yn ystod 2024/2025 wedi’u nodi isod:

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y costau** | **£474,777** |
| | |
| **Costau staff** | **£ 392,807** |
| **Costau rhedeg o ddydd i ddydd** | **£ 24,246** |
| **Darparu Adolygiadau Hyfforddiant ac Ymarfer Amlasiantaethol** | **£ 45,765** |
| **Ymgysylltu / Gwefannau a Chyhoeddusrwydd / Digwyddiadau Proffesiynol (gan gynnwys yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol)** | **£ 10,959** |

Cydnabyddir nad yw'r adnoddau a ddefnyddir i gefnogi gwaith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u cyfyngu i gyfraniadau ariannol gan asiantaethau partner statudol. Mae Cadeiryddion y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, Aelodau'r Bwrdd, Cadeiryddion Is-grwpiau ac aelodau yn rhoi cryn dipyn o'u hamser i gefnogi'r Bwrdd a'i waith. Mae hyn yn aml yn ychwanegol at eu rolau proffesiynol a nodwyd a'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Mae natur amrywiol gwaith y Bwrdd yn golygu ei bod yn anodd adrodd ar hyn o fewn cyd-destun adnoddau mesuradwy ac nid yw bob amser yn amlwg i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill. Mae trefnu adnoddau, cydlynu a chyhoeddi adolygiadau ymarfer plant ac oedolion, datblygu a diwygio protocolau a pholisïau rhanbarthol fel mater o drefn i ategu Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac ailddatblygu pecynnau hyfforddi amlasiantaethol ymhlith yr enghreifftiau o waith bwrdd diogelu sy’n gofyn am lefelau uchel o ymrwymiad, gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol.

# 10. THEMÂU DIOGELU A NODWYD

Mae ein cynllun strategol tair blynedd yn caniatáu i'n blaenoriaethau gael eu targedu'n raddol, gan fwriadu sicrhau newid mewn dull mwy systematig. Mae'r cynllun hwn yn nodi tair Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd y mae gan bob un ohonynt ddeg maes ffocws â blaenoriaeth sy'n galluogi cyfeiriad strategol y Byrddau i ystwytho yn unol â themâu lleol, rhanbarthol neu genedlaethol sy'n dod i'r amlwg, o fewn paramedrau'r flaenoriaeth gyffredinol. Mae hyn wedi galluogi aelodau'r Bwrdd i gytuno nad yw'r blaenoriaethau wedi newid drwy gydol y cyfnod o dair blynedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhai themâu diogelu wedi bod yn amlwg iawn ar adegau drwy gydol y cyfnod hwn o dair blynedd. Mae hyn wedi ein helpu i nodi ble i dargedu neu flaenoriaethu ein sylw. Wrth i ni ystyried ail flwyddyn ein cynllun strategol tair blynedd, rydym yn awyddus i fyfyrio ar rai enghreifftiau o'r blaenoriaethau neu'r meysydd ffocws hynny sydd wedi dod i'r amlwg neu wedi mynd yn ddwysach. Rydym yn parhau i fonitro themâu diogelu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, i sicrhau bod ein ffocws parhaus yn briodol.

Un o feysydd ffocws strategol hirsefydlog y Bwrdd yw cynyddu gwydnwch. Mae ein partneriaid yn parhau i wynebu heriau o ran darparu gwasanaethau, gyda ffocws ar ddiogelu a chapasiti, cymhwysedd a hyder y gweithlu. Mae ffactorau parhaus fel ***gwydnwch y gweithlu***, ynghyd â ffactorau amgylcheddol fel costau byw a thlodi, yn parhau i greu goblygiadau ar gyfer darparu gwasanaethau a gwydnwch gwasanaethau. Mae'r pwysau sy'n wynebu darparwyr gwasanaethau yn sylweddol, a hwythau'n gweithio gyda theuluoedd ag anghenion cynyddol gymhleth, yn aml o fewn timau lle mae swyddi gwag sylweddol a hirhoedlog i staff yn bodoli. Eleni, rydym wedi parhau i nodi cyfleoedd i sicrhau bod ymarferwyr yn teimlo'u bod wedi eu harfogi i weithio gyda phlant, pobl ifanc, rhieni a theuluoedd. Rydym wedi adolygu a diweddaru cynnig hyfforddiant amlasiantaethol ein Bwrdd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol. Rydym wedi darparu cymorth cynyddol i'n partneriaid i sicrhau bod ymarferwyr yn cael hyfforddiant diogelu priodol, sy'n cydymffurfio â'r safonau a'r fframwaith newydd, er mwyn cryfhau cymhwysedd a hyder. Roedd ein ffocws ar hyrwyddo diwylliant sy'n chwilfrydig yn broffesiynol hefyd yn amlwg eleni, yn rhan o'n fforymau ymarferwyr yn ystod Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, i ddysgu gwersi o adolygiadau cenedlaethol a rhanbarthol, a theimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn hyderus yn eu harferion diogelu.

Maes ffocws blaenoriaeth parhaus arall yw ***iechyd meddwl*** plant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod mewn perygl. Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn cydnabod bod yr heriau economaidd parhaus yn debygol o fod wedi cael effaith sylweddol a hirhoedlog ar blant, oedolion a theuluoedd. Rydym yn cydnabod o'n gwaith yn cynorthwyo partneriaid o ganlyniad uniongyrchol i ddigwyddiadau critigol ac o'n gwaith adolygu ymarfer thematig fod heriau iechyd meddwl yn parhau i fod yn hynod gyffredin o fewn ein cymunedau. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd ag arweinwyr Grŵp Llywio Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Gwent ac arweinwyr Iechyd Cyhoeddus BIPAB, ymhlith ein partneriaid eraill, i wella ein hymateb amlasiantaethol uniongyrchol i ddigwyddiad critigol yn ymwneud â phlentyn er mwyn rheoli'r effaith ar blant eraill neu aelodau o'r gymuned.

Mae ***diogelu wrth bontio*** yn ymagwedd sy'n rhychwantu ffiniau at ddiogelu sy'n berthnasol i wasanaethau plant, gwasanaethau oedolion a'r holl asiantaethau partner ac mae'n parhau i fod yn thema fynych yn ein rhanbarth. Mae'n cydnabod nad yw niwed a'i effeithiau yn dod i ben yn sydyn pan fydd person ifanc yn troi'n 18 oed; gallai'r ymennydd barhau i ddatblygu tan yr ugeiniau canol, ond gallai cymorth ddod i ben pan fydd y person ifanc yn 18 oed. Felly, nod diogelu wrth bontio yw sicrhau bod cymorth yn parhau, er mwyn lleihau'r risgiau i blant hŷn neu oedolion ifanc sy'n gysylltiedig â cham-drin ac esgeulustod parhaus, ac yn enwedig camfanteisio. Mae diogelu wrth bontio yn cynnwys dull llyfnach ar draws yr holl wasanaethau, gan ganiatáu dull mwy teilwredig, er ei fod o fewn y fframwaith cyfreithiol perthnasol yn gysylltiedig ag oedran o hyd. Mae ein Grwpiau Ymateb Uniongyrchol

a’n gwaith adolygu ymarfer yn taflu goleuni ar gymhlethdodau diogelu pobl ifanc sydd angen cymorth estynedig gan wasanaethau wrth iddynt symud i oedolaeth.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae’r Bwrdd yn bwriadu symud tuag at ddatblygu ymagwedd fwy trosiannol at gynorthwyo a diogelu pobl ifanc wrth iddynt symud i oedolaeth. Eleni, rydym wedi parhau i gymeradwyo’r arloesedd sy’n digwydd yn un o’n hardaloedd Awdurdod Lleol i brofi dull newydd i gynorthwyo pobl ifanc am gyfnod hirach wrth iddynt ddod yn oedolion ifanc, i’w gwyro oddi wrth gamfanteisio a lleihau’r cyfleoedd iddynt ddod yn rhai sy’n camfanteisio. Bydd hyn yn ein galluogi i ddysgu a rhannu gwersi wedi’u profi’n dda ledled ein rhanbarth i sicrhau bod ymarferwyr yn teimlo’u bod wedi ymbaratoi’n dda i nodi ac ymateb i anghenion cymhleth ar gyfer pobl ifanc sy’n symud i oedolaeth gynnar.

Mae ***Llais y defnyddiwr gwasanaeth*** yn parhau i fod yn thema ddwysach, fel yr adlewyrchir trwy ein Grwpiau Ymateb Uniongyrchol, ymarfer adolygu dysgu ac archwiliadau rhanbarthol. Rydym wedi dysgu bod hyn yn arbennig o wir pan geir cymhlethdodau o ran cyfathrebu. Er enghraifft, gyda phlant sy’n ddieiriau, yn rhan o grŵp brodyr a chwiorydd mwy neu’n cael eu hatal rhag cael eu gweld ar eu pen eu hunain gan ofalwyr. O ganlyniad, mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi cyhoeddi canllawiau amlasiantaethol i hyrwyddo dealltwriaeth o brofiad bywyd y plentyn. Yn ogystal, mae cyrsiau diogelu amlasiantaethol y Bwrdd yn pwysleisio arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ymgysylltu a llais trwy gydol y broses ddiogelu ac yn cyd-fynd â’r Safonau a’r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol newydd. Eleni, dechreuom gynllun peilot i ddeall yn well gan ddefnyddwyr gwasanaeth eu profiad bywyd o’r broses ddiogelu. Dysgom am bwysigrwydd perthynas y plentyn a’r teulu gydag ymarferwyr ymddiriedus a’r angen am gyfathrebu, cymorth ac ymglymiad gwell rhieni yn y broses amddiffyn plant. Bydd y cynllun peilot estynedig hwn yn ein cynorthwyo i gymhwyso barn defnyddwyr gwasanaeth i wella ein proses ddiogelu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pryderon diogelu rhanbarthol yn parhau i gael eu hamlygu naill ai o ganlyniad i drafodaethau partneriaid y Bwrdd, rhyngweithio â rhanddeiliaid, ymarfer adolygu dysgu neu Grwpiau Ymateb Uniongyrchol, sydd wedi ein helpu i ymateb gan ddefnyddio gweithgareddau wedi’u targedu. Un enghraifft o hyn yw ymgorffori a gwella arferion amlasiantaethol o ran plant sy’n cael eu chwilio gan yr heddlu, yng Ngwent. Mae hon yn enghraifft o fater sy’n dod i’r amlwg nad yw o reidrwydd yn cynrychioli thema, ond mae’n rhoi cyfleoedd i ymateb gan ddefnyddio ymagwedd amlasiantaethol a chydlynus at wella arferion diogelu, yng Ngwent.

Mae gwaith y Bwrdd yn erbyn ei flaenoriaethau strategol, ei feysydd ffocws a’i gyfrifoldebau statudol, fel y’u cyflwynir yn Adran 4, ynghyd â’r themâu diogelu dwysach a restrir yn yr adran hon, i gyd wedi helpu cyfeirio ein ffocws ar gyfer y cyfnod i ddod o ran **ein** blaenoriaethau strategol **parhaus**, a restrir isod:

**Un Weledigaeth Drosfwaol ar y Cyd:** Sicrhau bod plant ac oedolion, yng Ngwent, yn cael eu diogelu.

**Tair Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd:**

1. **Amddiffyn yn well plant ac oedolion rhag esgeulustod, niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol.**

- Cam-drin Plant yn Rhywiol
- Esgeulustod
- Iechyd Meddwl
- Cam-drin Domestig Teulu Cyfan

2. **Amddiffyn yn well plant ac oedolion sydd mewn perygl o gam-fanteisio.**

- Camfanteisio – Troseddol, Rhywiol, Ariannol
- Diogelu wrth Bontio

3. **Gwella a chynnal effeithiolrwydd trefniadau diogelu rhanbarthol.**

- Cyfranogiad / Llais y Defnyddiwr Gwasanaeth
- Gwydnwch y gweithlu
- Tlodi
- Canlyniadau perfformiad

I gael rhagor o wybodaeth am y blaenoriaethau a'r meysydd ffocws a gynhwysir yn y **Cynllun Strategol 2023-2026**, dilynwch y ddolen hon Cynllun Strategol DIOGELU GWENT 23-26 Blwyddyn 3 TERFYNOL

# 11. CYFRANOGIAD A CHYNNWYS DINASYDDION YNG NGWAITH Y BWRDD DIOGELU

Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn ystyried ei fod yn flaenoriaeth cynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth, plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a goroeswyr, ble bynnag y bo modd, i'n helpu i osod y cyfeiriad strategol. Rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd gan ein partneriaid i sicrhau bod llais y dinesydd yn parhau i lywio gwaith y Bwrdd.

Mae ein His-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu yn parhau i fonitro'i aelodaeth i sicrhau bod ganddo'r lefel fwyaf priodol o arbenigedd a dylanwad ar fforymau presennol. Yn ychwanegol, rydym yn parhau i nodi ble gallai is-grwpiau eraill y Bwrdd, fel Protocolau a Gweithdrefnau neu Sicrhau Ansawdd, ddefnyddio cyfleoedd i ymgynghori ac ymgysylltu trwy ddefnyddio ymarferion ymgynghori wedi'u targedu gydag ymarferwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae rhai enghreifftiau o'n gwaith eleni i gynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u cynnwys isod:

- Fel yr amlinellir yn Adran 6, goruchwyliodd ein his-grŵp Sicrhau Ansawdd gynllun peilot i ddeall yn well gan ddefnyddwyr gwasanaeth eu profiad bywyd o'r broses ddiogelu. Dysgom am bwysigrwydd perthynas y plentyn a'r teulu gydag ymarferwr ymddiriedus ac am yr angen am gyfathrebu, cymorth ac ymglymiad gwell rhieni yn y broses amddiffyn plant. Ymestynnwyd y cynllun peilot hwn a bydd yn ein cynorthwyo i gymhwyso barn defnyddwyr gwasanaeth i wella ein proses ddiogelu.

- Buom yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus mewn dau o'n Hawdurdodau Lleol eleni. Mae hyn wedi ein galluogi i gynnal arolygon 'Diogelu a Fi' gydag aelodau o'r cyhoedd, i ddeall eu hymwybyddiaeth a'u profiadau o wasanaethau. Mae gennym gynlluniau i ymestyn hyn i Awdurdodau Lleol eraill, maes o law.

- Cynhelir digwyddiadau ymarferwyr Rhwydwaith Diogelu Lleol ddwywaith y flwyddyn. Eleni, rhoddodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) gyflwyniad i ymarferwyr yng Ngwent ar Lais y Plentyn a Phrofiadau Bywyd. Hefyd, bu'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn helpu fel 'ffrind beirniadol' wrth ymgynghori ar ein taflenni Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer plant ac ar gyfer rhieni.

- Rydym yn parhau i gynnwys teuluoedd fel mater o drefn yn ein Hadolygiadau Diogelu Unedig Sengl. Mae hyn wedi sicrhau bod teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn gallu rhannu eu profiad bywyd yn rhan o'r broses adolygu.

- Rydym yn ymgynghori gyda fforymau dinasyddion neu bartneriaid ehangach sydd ag arbenigedd pwnc i lywio ein gwaith. Eleni, un enghraifft o hyn fu ein hymgynghori â'r elusen lles cŵn, The Dog's Trust, i ddylunio deunyddiau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd i wella diogelwch cyhoeddus yn gysylltiedig â chŵn.

Rydym yn cynnal cysylltiadau effeithiol â phartneriaethau rhanbarthol eraill, gan gynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn ein helpu i ystyried y prosesau llywodraethu a'r mecanweithiau adrodd ynghyd â chynrychiolaeth mewn cyfarfodydd Bwrdd i geisio symleiddio a lleihau dyblygu.

Rydym yn parhau i weithio gyda'n harweinwyr atal hunanladdiad a hunan-niwed rhanbarthol i ymateb, mewn ffordd gydlynus, i themâu sy'n deillio o Grwpiau Ymateb Uniongyrchol ac adolygiadau ymarfer plant yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niwed. Eleni, rydym yn adolygu'r terfyn oedran ar gyfer ein Grwpiau Ymateb Uniongyrchol, i ymateb i farwolaeth drasig oedolyn ifanc yn gadael gofal, oherwydd yr effaith sylweddol ar y gymuned a achoswyd gan y farwolaeth. Trwy gymhwyso dull diogelu mwy trosiannol, byddwn yn cyrraedd carfan fwy o gymunedau sydd wedi eu heffeithio.

Rydym yn cynnal perthynas waith agos â'n cydweithwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd mewn Byrddau priodol, rhannu gwefan ac ymdrechion cydweithredol yn gysylltiedig â blaenoriaethau ar y ddwy ochr, fel digwyddiadau yn ystod Wythnos Ddiogelu Genedlaethol a gweithdai datblygiadol ar y cyd. Yn ogystal, rydym wedi cael ystod o siaradwyr gwadd o asiantaethau partner sydd wedi ymgysylltu â'r Bwrdd, naill ai ar lefel Bwrdd, is-grŵp neu o fewn ein cyfarfodydd Rhwydwaith Diogelu Lleol. Mae hyn yn ymestyn ein hymwybyddiaeth strategol o flaenoriaethau cyfochrog ac yn ein helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer ymagwedd fwy cydweithredol at ddiogelu er mwyn gwella canlyniadau cadarnhaol ar gyfer mwy o ddinasyddion yn y rhanbarth. Mae gwaith partneriaeth yn parhau i fod wrth wraidd yr holl waith y byddwn yn ei wneud yn y cyfnod nesaf.

# 12. GWYBODAETH, DYSGU A HYFFORDDIANT

- **Gwybodaeth**

Mae Cyfnewidfa Wybodaeth wythnosol Bwrdd Diogelu Gwent yn ddull dibynadwy ar gyfer lledaenu newyddion diogelu, adnoddau a chynigion hyfforddiant i'n rhwydwaith partneriaeth. Mae ein his-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu yn goruchwylio rhaglen o waith ymgyrchu, sy'n galluogi'r Bwrdd i ddatblygu a chynnal ei raglenni cyfathrebu ei hun neu gefnogi rhai a ddatblygwyd gan bartneriaethau neu sefydliadau eraill. Mae'r grŵp hwn hefyd yn bwriadu datblygu cyfres o bodlediadau thema yn y cyfnod i ddod i ymestyn ein dulliau o gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach am destunau diogelu allweddol. Yn ogystal, mae ein gwefan yn parhau i gael ei hadolygu ac wedi cael ei gwella. Er enghraifft, rydym wedi dechrau defnyddio tudalen hyfforddiant y wefan i hysbysebu fforymau ymarferwyr y Rhwydwaith Diogelu Lleol, sydd wedi gwella'r cyfraddau presenoldeb ar gyfer ein sesiynau.

- **Dysgu**

Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn rhoi dysgu wrth wraidd ei fusnes. Mae ein hadolygiadau diogelu yn ffynhonnell ddysgu sylweddol. Eleni, rydym wedi rhoi Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl ar waith. Nod yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yw creu un broses adolygu sy'n ymgorffori dull amlasiantaethol lle bodlonir y meini prawf ar gyfer un neu fwy o'r adolygiadau canlynol:

- Adolygiad Ymarfer Oedolion (p'un a yw'n gryno neu'n estynedig);
- Adolygiad Ymarfer Plant (p'un a yw'n gryno neu'n estynedig);
- Adolygiad Lladdiad Domestig;
- Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl; ac
- Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol (ar ôl cwblhau gwerthusiadau peilot);

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd y canlynol:

- **Cyhoeddedig: un** adolygiad ymarfer oedolion domestig (D-APR) a **dau** adolygiad ymarfer plant; ac
- **Yn parhau a bydd yn dod i ben yn ystod y cyfnod i ddod: un** adolygiad ymarfer oedolion, **un** Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (yn gysylltiedig â domestig), **dau** adolygiad ymarfer plant ac **un** adolygiad thematig fforwm proffesiynol amlasiantaethol oedolion (MAPF).

Mae pynciau neu gyd-destunau'r adolygiadau ymarfer yr ydym wedi eu dechrau neu'u cwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi helpu i lywio ffocws y Bwrdd ar gyfer y cyfnod newydd. Mae'r cyd-destunau hyn wedi cynnwys cam-drin plant yn rhywiol, ac esgeulustod ar gyfer plant ac oedolion. Yn ogystal, cyhoeddom Adolygiad Ymarfer Oedolion Domestig, a chyd-destun hyn oedd cam-drin domestig yn cael ei gyflawni gan fab oedd yn oedolyn tuag at riant. Byddwn yn ystyried cyd-destun cam-drin domestig teulu cyfan wrth i ni gynnal adolygiadau ymarfer mwy domestig a ph'un a yw cam-drin domestig rhieni yn dod i'r amlwg fel thema. Bydd dysgu sy'n deillio o'r adolygiadau ymarfer hyn yn ein galluogi i nodi meysydd gwaith penodol gan ddefnyddio argymhellion dethol y cynllun gweithredu.

Dyma rai enghreifftiau o'r themâu dysgu ehangach, sydd wedi eu cyhoeddi neu sy'n dod i'r amlwg:

- Colli cyfleoedd i ystyried a dadansoddi'r cyd-destun hanesyddol a theuluol ehangach ar gyfer **profiadau bywyd plant ac oedolion**.
- Roedd nifer o **wahaniaethau proffesiynol** yn amlwg, y mae'n ymddangos eu bod wedi effeithio ar reolaeth amlasiantaethol o ran y plentyn neu'r oedolyn.

- Roedd **chwilfrydedd proffesiynol** cyfyngedig yn amlwg.
- Colli cyfleoedd i weld y dioddefwr **a siarad â'r dioddefwr ar ei ben ei hun** y tu allan i'r cartref;
- Colli cyfleoedd i **gyflwyno atgyfeiriadau diogelu**.

## • Hyfforddiant

Yn un o'u gofynion statudol, bydd Byrddau Diogelu yn adolygu ac yn dadansoddi anghenion hyfforddi ymarferwyr yn yr ardal, ac yn parhau i gael eu hysbysu er mwyn iddynt allu monitro'r gweithgareddau hyfforddi a ddarperir, nodi'r hyfforddiant sydd ei angen a sicrhau bod asiantaethau yn ei ddarparu. Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i ddarparu rhaglen hyfforddi ranbarthol amlasiantaethol ehangach, gyda chymysgedd priodol o ryngweithiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb i wella'r profiad dysgu. Mae hyn yn galluogi mynediad am ddim at ystod o gyrsiau diogelu ar gyfer ymarferwyr a gwirfoddolwyr ar draws y rhanbarth. Maen nhw wedi'u dylunio i ategu ac ychwanegu gwerth at yr hyfforddiant a ddarperir gan dimau datblygu'r gweithlu yn y rhanbarth.

Mae Grŵp Cyflawni'r Byrddau ar y cyd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol, a nodwyd gan eu hasiantaethau am eu gallu, eu gwybodaeth a'u harbenigedd mewn agweddau ar arferion diogelu, ac mae'r Grŵp hwn yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni ein rhaglen hyfforddi ranbarthol. Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn cydnabod cefnogaeth barhaus asiantaethau statudol ac anstatudol wrth alluogi parhau i gyflwyno hyfforddiant diogelu amlasiantaethol rhanbarthol. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, eleni, mae partneriaid wedi parhau i ymdrechu'n sylweddol i sicrhau bod cynnig hyfforddiant y Bwrdd yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol ac mae'r gwaith hwn yn parhau i fynd rhagddo.

Rydym yn parhau i gomisiynu hyfforddiant ar draws nifer o destunau diogelu arbenigol, sy'n cynnwys sesiynau briffio a hyfforddiant gan nifer o ddarparwyr ar ystod o feysydd pwnc, a restrir isod. Eleni, mae nifer y mynychwyr a'r sesiynau a gyflwynir wedi parhau'n uchel ac yn dangos hyder a galluogrwydd cynyddol Bwrdd Diogelu Gwent wrth barhau i weithredu'n effeithiol o ran ei gynnig hyfforddiant.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r hyfforddiant a ddarparwyd gan Fwrdd Diogelu Gwent yn 2024/2025:

| Cyflwynwyd gan | Teitl | Nifer y Sesiynau a Gyflwynwyd | Cyfanswm y Rhai a Hyfforddwyd |
|---|---|---|---|
| Grŵp Cyflawni Bwrdd Diogelu Gwent | Cyflwyniad i Ddiogelu (Plant ac Oedolion) | 4 | 75 |
| Grŵp Cyflawni Bwrdd Diogelu Gwent | Diogelu Plant: Y Broses Ddiogelu | 5 | 96 |
| Grŵp Cyflawni Bwrdd Diogelu Gwent | Grŵp C – Diogelu Oedolion | 5 | 97 |
| Grŵp Cyflawni Bwrdd Diogelu Gwent | Grŵp B – Diogelu Plant ac Oedolion (Ar y cyd) | 8 | 141 |
| Grŵp Cyflawni Bwrdd Diogelu Gwent | Grŵp C – Diogelu Plant | 1 | 10 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Barnardo's | Arwyddion a Dangosyddion Cam-drin Plant yn Rhywiol | 3 | 53 |
| Sefydliad Lucy Faithfull | Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant | 2 | 34 |
| Sefydliad Lucy Faithfull | Cadernid Digidol | 2 | 35 |
| Sefydliad Lucy Faithfull | Deall ymddygiad rhywiol niweidiol | 2 | 33 |
| JMG Training and Consultancy | Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Diogelu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc | 1 | 14 |
| JMG Training and Consultancy | Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Diogelu ar gyfer Oedolion | 1 | 10 |
| Cydlynydd y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol | Ymwybyddiaeth o'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol | 10 | 164 |
| Safer Together | Byw mewn Ofn | 1 | 21 |
| Safer Together | Esgeulustod Cymhleth | 1 | 24 |
| Safer Together | Arfer sy'n Ystyriol o Drawma | 1 | 17 |
| Wes Cunliffe | Camfanteisio ar Blant | 1 | 12 |
| Heddlu Gwent | Sylwi ar yr Arwyddion – Plant a Phobl Ifanc sy'n Dioddef Camfanteisio | 2 | 38 |
| Heddlu Gwent | Sylwi ar yr Arwyddion – Oedolion sy'n Dioddef Camfanteisio | 1 | 15 |
| Edge Training | Hunanesgeulustod, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Chelcio | 4 | 86 |
| JMG Training and Consultancy/Stori | Y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Cam-drin Domestig, Rheolaeth drwy Orfodaeth ac Oedolion sydd mewn Perygl | 4 | 58 |
| **CYFANSWM** | | 59 | **1033** |

**Sesiynau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd**

| **Cyflwynwyd gan** | **Teitl** |
|---|---|
| Grŵp Cyflawnii Bwrdd Diogelu Gwent | Adolygu pecyn Hyfforddiant Diogelu Grŵp B Bwrdd Diogelu Gwent. |
| Grŵp Cyflawni Bwrdd Diogelu Gwent | Cwblhau a lansio pecyn dysgu cyfunol Grŵp C Diogelu Oedolion Bwrdd Diogelu Gwent. |

| | |
|---|---|
| Grŵp Cyflawni Bwrdd Diogelu Gwent | Digwyddiad Hwyluswyr Grŵp C Hyfforddiant Diogelu Bwrdd Diogelu Gwent. Mae'r digwyddiad wedi'i fwriadu ar gyfer hwyluswyr newydd a phresennol Grŵp C ar draws ein rhwydwaith partneriaeth. |

# 13. GWEITHGAREDDAU ERAILL Y BWRDD

## Yr Holl Orchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion

Mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi trefniadau i'r gorchmynion sifil hyn gael eu defnyddio gan awdurdod lleol i alluogi swyddog awdurdodedig i siarad yn breifat ag unigolyn yr amheuir ei fod yn oedolyn mewn perygl.

Mae gan ranbarth Gwent swyddogion awdurdodedig ar waith.  Yn 2024/2025, ni weithredwyd unrhyw Orchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion yn rhanbarth Gwent.

## Canllawiau a Chyngor a gafwyd gan Weinidogion Cymru a / neu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac wedi croesawu'r rhyngweithio amlach â'r Tîm Diogelu ac Eiriolaeth a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol eraill ledled Cymru, er mwyn cynnal y cysylltiad cenedlaethol hwn.

Mae cynrychiolwyr o Fwrdd Diogelu Gwent wedi parhau i gymryd rhan lawn mewn digwyddiadau cenedlaethol.  Mae hyn wedi cynnwys y Bwrdd Prosiect ar gyfer yr adolygiad parhaus o Weithdrefnau Diogelu Cymru a grwpiau gorchwyl cenedlaethol penodol.  Mae ein rhanbarth yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd cadeirio Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cymru Gyfan a digwyddiadau a chyfarfodydd rhwydwaith Rheolwyr Busnes Diogelu Cymru Gyfan.  Mae Cynlluniau ac Adroddiadau Blynyddol yn parhau i gael eu cynhyrchu gan ddefnyddio fformat y cytunwyd arno gyda rhanbarthau eraill y Bwrdd i sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer Cymru gyfan.

Rydym yn parhau i werthfawrogi'r cyfle i gydweithio ag aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC).  Drwy gydol 2024/2025, cafodd ein Byrddau ddiweddariadau rheolaidd gan yr aelod cyswllt dynodedig o'r BDAC, sydd wedi parhau i fod yn aelod cyson ac ymroddedig o Fwrdd Diogelu Gwent ers sawl blwyddyn bellach, gan gryfhau'r undeb.

## Ceisiadau Adran 137 am wybodaeth

Mae Adran 137(1) o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Fwrdd Diogelu ofyn am wybodaeth benodedig gan unigolyn neu gorff cymwys, ar yr amod mai diben y cais yw galluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf.

Yn ystod y flwyddyn 2024/2025, ni ddefnyddiodd Bwrdd Diogelu Gwent ei bwerau Adran 137 i gael gafael ar wybodaeth.